# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgor 5**

Dyddiad: Dydd Llun, 16 Hydref 2023

Amser: 13.15-16:15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod (13:00-13:15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(13.15)

## 2 Papurau i'w nodi

(13.15)

**2.1 Gohebiaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ynghylch y dull iechyd cyhoeddus o atal trais ar sail rhywedd**

(Tudalennau 1 - 2)

**2.2 Gohebiaeth â'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y dull iechyd cyhoeddus o atal trais ar sail rhywedd**

(Tudalennau 3 - 6)

**2.3 Gohebiaeth â Chymdeithas Bêl-droed Cymru ynghylch y dull iechyd cyhoeddus o atal trais ar sail rhywedd**

(Tudalennau 7 - 9)

**2.4 Gohebiaeth â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cadeirydd ynghylch y dull iechyd cyhoeddus o atal trais ar sail rhywedd**

(Tudalennau 10 - 15)

**2.5 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol: y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

(Tudalennau 16 - 19)

2.6 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynghylch cyllideb ddrafft 2024/2025

(Tudalennau 20 - 25)

2.7 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynghylch papurau tystiolaeth sy'n cefnogi cyllideb ddrafft 2024/25

(Tudalennau 26 - 27)

2.8 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch aflonyddu rhywiol mewn lleoliadau llawfeddygol

(Tudalennau 28 - 29)

2.9 Gohebiaeth gyda Cymorth i Ferched Cymru ynghylch y rhaglen "Gofyn a Gweithredu"

(Tudalennau 30 - 33)

2.10 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch tlodi plant

(Tudalennau 34 - 47)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 4, 5 a 7 o'r cyfarfod heddiw.

## 4 Ymchwiliad i Strategaeth Tlodi Plant ddrafft Llywodraeth Cymru: trafod yr adroddiad drafft

(13.15 - 14.00 ) (Tudalennau 48 - 91)

## 5 Blaenraglen waith

(14.00-14.45) (Tudalennau 92 - 101)

## EGWYL (14:45-15:15)

## 6 Cyfiawnder data: y defnydd o ddata personol yn y GIG yng Nghymru: sesiwn dystiolaeth 4

(15.15-16.00) (Tudalennau 102 - 122)

Alison Thomas, Prif Weithredwr, Llais

Yr Athro Hamish Laing, Prifysgol Abertawe

## 7 Cyfiawnder data: y defnydd o ddata personol yn y GIG yng Nghymru: trafod y dystiolaeth

(16.00-16.15)

GIG CYMRU
NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

**Executive Headquarters / Pencadlys Gweithredol**

Woodland House
Maes-y-Coed Road
Cardiff
CF14 4HH

Ty Coedtir
Ffordd Maes-y-Coed
Caerdydd
CF14 4HH

Eich cyf/Your ref:
Ein cyf/Our ref: SR-jb-0923-10292
Welsh Health Telephone Network:
Direct Line/Llinell uniongychol: 029 2183 6010

**Suzanne Rankin**
**Chief Executive**

20 September 2023

**<u>Private & Confidential</u>**
Ms Jenny Rathbone MS
Chair, Equality and Social Justice Committee
Welsh Parliament
CARDIFF BAY
Cardiff
CF99 1SN

Dear Ms Rathbone

Thank you for the opportunity for Cardiff and Vale UHB to contribute to the Equality and Social Justice Committee Inquiry into the public health approach to preventing gender-based violence.

The question you raise is "how statutory services deal with allegations of gender-based violence internally and to set out what procedures are in place for handling allegations of gender-based violence raised by or against employees."

Gender-based violence by, or against, employees is taken very seriously within the Health Board. The People Assurance & Experience team and the Safeguarding team oversee all allegations of gender-based violence. The Adult Safeguarding procedures are instigated and all alleged cases of gender-based violence will always be reported to the Police and Local Authority to ensure multi-agency referral and oversight. Employees are also encouraged and supported to self-report directly to Police.

The UHB is committed to taking their responsibilities to protect employees from gender-based violence;

- Giving assurance to employees they will be heard with confidentiality
- Freedom to Speak Up process is promoted to ensure they are aware they can always contact senior members of the Executive and Board
- Assurance to employees their voice is heard and we will work with them to ensure they feel safer in the workplace
- Enforce and monitor compliance to the Lone Worker policy
- All employees identified at risk are provided with health and safety personal alarms
- Employees who have reported gender-based violence will not be moved from the work environment but the alleged perpetrator will be moved

- Health & Safety team are integral to review any identified work-based risks and incidents
- The Executive Nurse Director is responsible for all safeguarding which includes any reports of gender-based violence and there is a monthly Executive oversight of all professional safeguarding concerns
- The Board receive training and awareness of all forms of gender-based violence and are briefed on all employee's gender-based violence within hospital environments

Training is key to ensure employees are informed as to what constitutes gender-based violence and how to deal with any concerns. One of the main policies is the Violence Against Women Domestic Abuse and Sexual Violence (VAWDASV).

The implementation of the Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Assault (Wales) Act 2015 has seen a change in the referrals, training and width and breadth of the domestic abuse agenda within the UHB.

The Regional Multi-Agency Domestic Abuse Strategy for Cardiff and Vale incorporates a plan to address service need and training actions across the locality of Cardiff and Vale of Glamorgan council area. The UHB is fortunate to have four health Independent Domestic Violence Advisors (IDVA); this service is available for employees. Domestic abuse and other forms of violence can impact negatively on an employee's health and wellbeing and staff morale. The health IDVA supports staff members experiencing domestic abuse, and within the reporting period 2022-2023 has received 45 referrals. The health IDVA has supported the staff by completing regular risk assessments and working in a client-led way to develop safety plans for them at home and in work; this includes working closely with managers, the UHB Health and Safety team and UHB security. The health IDVA has also worked closely with the Health and Safety team to put in a successful bid to the Health Charity for lone worker devices for staff experiencing domestic abuse and stalking.

In summary, we are working on a multi-faceted approach to ensure that we have a safe culture, where individuals feel empowered to call out and report any poor behaviour. When gender-based violence occurs in the workplace, we have policies to ensure that individuals are dealt with appropriately while supporting those who raise concerns. Finally, we are very clear as a Health Board what our values are, and how we operate a zero-tolerance approach to any form of gender-based violence.

Yours sincerely



**Suzanne Rankin**
**Chief Executive**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw enw gweithredol Bwyrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board is the operational name of Cardiff and Vale University Local Health Board

*Croesawir y Bwrdd ohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Sicrhawn byddwn yn cyfathrebu â chi yn eich dewis iaith. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn creu unrhyw oedi*
*The Board welcomes correspondence in Welsh or English. We will ensure that we will communicate in your chosen language. Correspondence in Welsh will not lead to a delay*

**Julie Morgan AS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/EM/2188/23

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

10 Hydref 2023

Annwyl Jenny

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Medi yn gofyn am ragor o dystiolaeth ar gyfer eich ymchwiliad i ddulliau iechyd y cyhoedd o atal trais ar sail rhywedd.

**A yw Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth wedi'i dargedu i weithwyr cymdeithasol ymdrin ag achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ymhlith menywod a phlant?**

Mae cysylltiadau cryf rhwng timau gweithlu'r gwasanaethau cymdeithasol a chyflwyno trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy fframwaith hyfforddi haenog a drefnir ac a ddarperir drwy'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Trwy grantiau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a grantiau gweithlu gofal cymdeithasol, sydd ill dau wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, mae hyfforddiant arbenigol yn cael ei ddarparu i'r gweithlu gofal cymdeithasol i gefnogi dulliau adnabod, asesu a chymorth ar gyfer achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ymhlith menywod a phlant.

Mae'r hyfforddiant arbenigol parhaus y mae gweithwyr cymdeithasol yn ei dderbyn yn datblygu'r wybodaeth angenrheidiol i ddeall trais a cham-drin domestig, ac yn diffinio rôl gweithwyr proffesiynol wrth sicrhau diogelwch pobl. Mae'r ddogfen Adnabod ac ymateb i gamdriniaeth a thrais domestig - canllaw i weithwyr cymdeithasol yn cynghori gweithwyr cymdeithasol ac yn nodi os yw eu rôl yn ymwneud yn benodol â diogelu, y 'dylent fod yn hyderus hefyd wrth adnabod ac asesu risg (yn aml trwy ddefnyddio DASH - sef adnodd cam-drin domestig, stelcian, aflonyddu a thrais ar sail 'anrhydedd'), cynllunio diogelwch a chydweithio â gwasanaethau cymorth arbenigol'.

Mae'n bwysig cydnabod bod y cyfrifoldeb cyffredinol am fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dod o fewn cyfrifoldebau portffolio'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, fodd bynnag, mae gan y sector iechyd a gwasanaethau cymdeithasol rôl hanfodol i'w chwarae. Rydym wedi cyhoeddi nifer o ganllawiau statudol o dan bwerau a roddwyd gan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae hyn yn cynnwys canllawiau 'Gofyn a Gweithredu', a gyhoeddwyd fel rhan o'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Nod y Fframwaith yw sicrhau bod hyfforddiant cyson o ansawdd uchel ar gael ar draws y sector cyhoeddus a'r sector arbenigol.

Mae 'Gofyn a Gweithredu' yn rhan allweddol o'r Fframwaith ac mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cydnabod fel grŵp blaenoriaeth ar gyfer hyfforddiant Gofyn a Gweithredu yn ein canllawiau statudol. Mae'r rhaglen 'Gofyn a Gweithredu' yn rhaglen genedlaethol ac mae'n gwbl weithredol ar draws holl ranbarthau Cymru.

**Pa waith sy'n cael ei wneud i amddiffyn menywod a'u plant rhag cam-drin ar ôl gwahanu?**

Mae'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn gweithio ochr yn ochr â Thimau Adnoddau Cam-drin Domestig ar gyfer achosion cyn ac ar ôl gwahanu i gefnogi'r gwaith o gynllunio diogelwch. Gwyddom mai'r cyfnod risg mwyaf yw pan fydd rhywun yn gwahanu oddi wrth gyflawnwr. Gall y cymorth hwn gynnwys mynediad i loches, tai awdurdod lleol, Eiriolwr Trais Domestig Annibynnol dynodedig, ymyrraeth therapiwtig arbenigol i blant yn yr uned deuluol, ynghyd â chymorth ymarferol. Ariennir gwasanaethau o'r fath drwy gyllid grant refeniw trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol Llywodraeth Cymru, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, awdurdodau lleol a chyllid trydydd sector ehangach. Mae Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn gyfranogwyr craidd mewn Cynadleddau Asesu Risg Aml-Asiantaeth, sef cyfarfodydd amlasiantaethol lle rhennir gwybodaeth am achosion cam-drin domestig risg uchel, i wneud y gorau o rannu gwybodaeth a chydgysylltu cynllunio rheoli risg amlasiantaethol. Yn ogystal, bu datblygiadau mewn rhaglenni cyflawnwyr i ddatblygu dull ymyrraeth haenog i fynd i'r afael â'r sbectrwm risg.

Yn 2020, cyhoeddodd Panel Niwed Gweinyddiaeth Gyfiawnder Llywodraeth y DU ei adroddiad 'Asesu Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat'. Amlygodd yr adroddiad waith Cafcass Cymru sydd, fel rhan o Lywodraeth Cymru, wedi chwarae rhan gadarnhaol yn y Cynllun peilot Braenaru Llysoedd Teulu yng ngogledd Cymru ers mis Chwefror 2022. Nod y prosiect hwn yw diogelu a gwella profiadau dioddefwyr-goroeswyr cam-drin domestig a mathau eraill o niwed yn well, ac mae'n ymgysylltu'n benodol â phlant sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder teuluol. Ceir diweddariad byr ar gynnydd gweithredu'r cynllun braenaru yn dilyn y flwyddyn gyntaf o weithredu yma. Mae Cafcass Cymru yn dadlau o blaid y cynllun peilot ac yn argymell bod Llywodraeth y DU yn ei gyflwyno i rannau eraill o Gymru.

Byddai datblygu'r cynllun peilot hwn yn dod â chymorth ac amddiffyniad wedi'u targedu i fenywod a'u plant rhag cam-drin ar ôl gwahanu, gan fod y ddarpariaeth bresennol yn dod o dan gylch gwaith gwasanaethau cymorth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais. Mae'r gwasanaethau hyn yn galluogi menywod i amddiffyn eu hunain rhag cam-drin pellach ac amddiffyn eu plant rhag effaith cyn bartner sydd am ddefnyddio'r 'system' i ymestyn ei reolaeth drwy orfodaeth. Er gwaethaf effeithiolrwydd y gwasanaethau cymorth hyn, rydym yn cydnabod bod angen inni wneud mwy ac rwy'n gweithio gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol drwy'r glasbrint ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i wella'r hyn y gallwn ei gynnig.

Amlygodd ymatebion i'r ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mor bwysig ydyw deall effaith trais yn erbyn

menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy gydol bywyd unigolyn. Mae perygl nad yw anghenion plant a phobl ifanc wedi cael eu cydnabod yn ddigonol hyd yma. Amcan 2 y strategaeth genedlaethol yw cynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a’u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol.

Rydym yn cyflawni’r strategaeth a’r amcan hwn gyda ffrwd waith glasbrint penodol sy’n mynd i’r afael ag anghenion plant a phobl ifanc. Ynghyd â’r gwaith sydd eisoes wedi’i wneud ar ddatblygu polisi Diogelu ac Addysg, bydd y grŵp yn sicrhau bod eglurder a chydlyniant yn y dulliau gweithredu cyffredin a chydategol a ddefnyddir mewn perthynas â diogelu a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a bod anghenion plant a phobl ifanc yn cael eu diwallu.

**Sut mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gydag ysgolion, Cafcass a phartneriaid eraill i eirioli ar ran plant a phobl ifanc i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed?**

Rydych yn gofyn am y rôl y mae gwasanaethau cymdeithasol yn ei chwarae wrth weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed. Mae ymarferwyr gofal cymdeithasol yn eiriolwyr ar ran plant ac oedolion ac yn dod ag ymarferwyr ac asiantaethau ehangach at ei gilydd i sicrhau bod yr unigolyn yn ganolog i gynllunio a llunio’r ymatebion i’w hanghenion. Mae gan ymarferwyr Cafcass Cymru swyddogaeth statudol benodol i sicrhau eu bod yn clywed ac yn gwrando ar leisiau plant, a chânt eu penodi gan y Llysoedd.

Mae'n hollbwysig bod hawliau plant yn cael eu gwreiddio ym mhob ymarfer a'u bod yn hygyrch. Ers 2017, fel rhan o'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol, mae hawl gan blant a phobl ifanc i 'gynnig gweithredol' o eiriolaeth gan eiriolwr proffesiynol annibynnol statudol pan fyddant yn derbyn gofal neu pan fyddant yn destun ymholiadau amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol. Mae’r cynnig hwn yn galluogi awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth i ddarparu ymagwedd gyson genedlaethol at gymorth eirioli.

Gellir gweld enghraifft bellach o weithredu cenedlaethol trwy Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan. Mae'r Gweithdrefnau a'r Canllawiau Ymarfer sy'n eu cefnogi yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymarferydd a sefydliad chwarae eu rhan a chyfrannu at ddiogelu a hyrwyddo lles y plentyn. Mae hyn yn cynnwys gweithio rhyngddisgyblaethol ac amlddisgyblaethol er mwyn deall yr unigolyn a’i amgylchiadau a’i anghenion am ofal, cymorth a diogelwch yn well.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



**Julie Morgan AS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

25 Medi 2023

Annwyl Julie,

Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Diolch am roi tystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad i drais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd.

Ymhellach i'n sesiwn, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pwyntiau ychwanegol a ganlyn.

- A yw Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth wedi'i dargedu i weithwyr cymdeithasol i ymdrin ag achosion o VAWDASV ymhlith menywod a phlant;
- Pa waith sy'n cael ei wneud i ddiogelu menywod a'u plant rhag camdriniaeth ar ôl gwahanu; a
- Sut mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio gydag ysgolion, Cafcass a phartneriaid eraill i eirioli ar ran plant a phobl ifanc i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed?

Gan ein bod wedi cyrraedd diwedd ein cyfnod casglu tystiolaeth, byddem yn ddiolchgar cael ymateb erbyn 9 Hydref 2023, os oes modd.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

FA WALES
CBD CYMRU

**Football Association of Wales Ltd**
Hensol
Vale of Glamorgan
CF72 8JY

**Cymdeithas Bêl-Droed Cymru**
Hensol
Vale of Glamorgan
CF72 8JY

T 029 2043 5830
F 029 2049 6953
CO# 00213349

www.faw.cymru

4th October 2023

Dear Jenny

Many thanks for your letter dated 27th September. We at the Football Association of Wales (FAW) recognise the power and influence of football in relation to societal issues and take this responsibility very seriously. We seek to use our position and influence to help tackle misogyny and challenge toxic behaviour. We are currently working with Welsh Government on their 'Sound' campaign and have recently filmed videos for this campaign with three of the Men's Cymru team players. We have also worked with the Welsh Government on similar campaigns previously. You can find further information on this at the following links:

Tackling online misogyny | Herio casineb at ferched ar-lein - YouTube

CYMRU 'CALL OUT ONLY' (aws-skybrid.co.uk)

Cymru footballers and Welsh Government team up to tackle online sexual harassment (aws-skybrid.co.uk)

We take a number of steps to ensure that people feel, and are, safe at events, including:

- Ahead of all senior International matches the FAW publishes supporter information that includes details of how discrimination of any sort can be reported, please see an example of this here.
- This information is published to the FAW website and is linked to from newsletters that are sent to ticket holders ahead of our matches.
- The information is also accessible via the Cymru Tickets App, which every ticket holder must have to enter the stadium. As you will note, we provide a text number to report any such incidents in addition to reporting features on the FAW website.
- This information and text number is displayed on posters around the stadium on match days.
- We have a dedicated safeguarding lead in attendance at all of our home games to whom any incidents can be directly reported by stewards/match day staff.
- A dedicated safeguarding lead will also be present for all senior away fixtures going forward.

The FAW holds regular match meetings in the build-up to any games at the stadium and these procedures are regularly reviewed through this process and we seek to continuously improve.

FA WALES
CBD CYMRU

**Football Association of Wales Ltd**
Hensol
Vale of Glamorgan
CF72 8JY

**Cymdeithas Bêl-Droed Cymru**
Hensol
Vale of Glamorgan
CF72 8JY

T 029 2043 5830
F 029 2049 6953
CO# 00213349

www.faw.cymru

In addition to the actions that we take on match days we are also very aware of our responsibilities as an employer. We aim to live our values of Excellence, family and respect through our behaviours and organisational culture, and we are working towards becoming a White Ribbon accredited employer.

Please do not hesitate to get in touch with us if you require any information further to the above

Yours sincerely

Noel Mooney

CEO Football Association of Wales

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Noel Mooney
Prif Weithredwr
Cymdeithas Bêl-droed Cymru

27 Medi 2023

Annwyl Noel

Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd. Mae rhagor o fanylion am yr ymchwiliad, gan gynnwys ein cylch gorchwyl, ar gael ar ein gwefan.

O ystyried dylanwad posibl chwaraeon a digwyddiadau chwaraeon ar newid diwylliant yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol, byddem yn ddiolchgar pe gallech nodi pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod pawb sy'n mynychu digwyddiadau yn teimlo'n ddiogel, a pha weithdrefnau sydd ar waith ar draws safleoedd i ddelio ag unrhyw sefyllfaoedd a allai godi.

Gan ein bod wedi cyrraedd diwedd y cyfnod casglu tystiolaeth, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 9 Hydref 2023, os oes modd. Rwy'n copïo'r llythyr hwn at Sioned Wiliams AS yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant.

Yn gywir

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 2.4

**Eluned Morgan AS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/EM/2188/23

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

9 Hydref 2023

Annwyl Jenny

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Medi yn gofyn am ragor o dystiolaeth ar gyfer eich ymchwiliad i ddulliau iechyd y cyhoedd o atal trais ar sail rhywedd. Atebaf y cwestiynau yn y drefn y gwnaethoch chi eu gofyn nhw yn eich llythyr.

**Pa broffesiynau iechyd y mae’n ofynnol iddynt ymgymryd â Gofyn a Gweithredu o dan y dyletswyddau presennol ac a oes gennych farn ynghylch a ddylid ehangu’r ddyletswydd honno, ac i bwy?**

Mae'r holl staff sy'n gweithio i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG wedi cael cyfle i gael mynediad i hyfforddiant Gofyn a Gweithredu ac yn parhau i gael mynediad i'r hyfforddiant hwnnw.

Y pwyslais cychwynnol oedd darparu hyfforddiant Gofyn a Gweithredu i’r categorïau canlynol o broffesiynau iechyd:

- Bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd
- Meddygon teulu a thimau gofal sylfaenol
- Adran achosion brys
- Camddefnyddio sylweddau
- Iechyd meddwl
- Nyrsio ardal a chymunedol
- Gwasanaeth ambiwlans
- Nyrsio ysgol
- Gwasanaethau iechyd rhywiol

Canfu gwerthusiad annibynnol o Gofyn a Gweithredu ym mis Ionawr 2022 fod cydnabyddiaeth eang o'r angen am Gofyn a Gweithredu. Roedd llawer o'r farn bod Gofyn a Gweithredu yn ffordd effeithiol o roi  trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar yr agenda o fewn sefydliadau. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y bwlch mewn hyfforddiant yr oedd Gofyn a Gweithredu yn ei lenwi, a theimlwyd ei fod yn cyd-fynd yn dda â hyfforddiant trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arall. Teimlwyd bod cysondeb y dull gweithredu ledled Cymru yn werthfawr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol bod Gofyn a Gweithredu yn cael ei gyflwyno i staff mewn “awdurdod perthnasol”, sef bwrdd iechyd lleol, Ymddiriedolaeth GIG, awdurdod lleol neu wasanaeth tân ac achub. Oherwydd pwysigrwydd yr hyfforddiant hwn o ran atal pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr, a’r galw gan sefydliadau y tu allan i’r diffiniad, mae’r rhaglen Gofyn a Gweithredu wedi’i hymestyn i sefydliadau nad ydynt yn dod o dan y Ddeddf.

**A allech gadarnhau a fydd trais ar sail rhywedd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Iechyd Menywod?**

Bydd y Cynllun Iechyd Menywod yn gynllun gan GIG Cymru. Mae Gweithrediaeth y GIG wrthi'n sefydlu'r Rhwydwaith Iechyd Menywod. Bydd y Rhwydwaith yn gyfrifol am ddatblygu'r Cynllun. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnwys trais ar sail rhywedd ar y rhestr o feysydd posibl i’r rhwydwaith eu hystyried.

**A allech ymhelaethu ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi meddygon teulu i roi 'gofal sy'n seiliedig ar berthynas' ar waith o ystyried y pwysau presennol ar wasanaethau meddygon teulu?**

Ein blaenoriaeth yw sicrhau model cynaliadwy o ymarfer cyffredinol ar gyfer y dyfodol sy’n cadw egwyddorion ac ethos gofal sy’n seiliedig ar berthynas drwy ymgorffori modelau cyflenwi gwasanaethau sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mewn practis cyffredinol modern, mae meddygon teulu yn defnyddio cymorth tîm practis amlbroffesiwn. Mae’r cysylltiadau hyn hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddarparu gofal sy’n seiliedig ar berthynas - lle mae practisau’n defnyddio dull sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, gall yr aelod mwyaf priodol o’r tîm, nid y meddyg teulu yn unig, ddarparu gofal effeithiol, tosturiol a pharhaus.

Rydym yn gweld cynnydd yn nifer y nyrsys a staff gofal cleifion uniongyrchol yn cael eu cyflogi mewn practisau cyffredinol, gan gefnogi mynediad cleifion at ofal. Roedd 478 yn fwy o staff practis ehangach ym mis Medi 2022 o gymharu â mis Medi 2020.

Rydym wedi gweithio gyda’r proffesiwn meddygon teulu i ddatblygu’r Contract Unedig GMS newydd, gyda Rheoliadau 2023 sy’n sail i hyn yn dod i rym ar 1 Hydref. Un o nodau allweddol y Contract Unedig yw lleihau gwaith gweinyddol i bractisau, gan ryddhau mwy o amser ar gyfer gofal cleifion.

**Mae data Arolwg Troseddu Prydain yn nodi bod 38% o ddigwyddiadau trais domestig yn gysylltiedig ag alcohol. A allech nodi sut y mae’r ffigur hwn yn dylanwadu ar bolisi alcohol Llywodraeth Cymru, er enghraifft, a ydych wedi cael sgyrsiau ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a/neu gyd-Weinidogion am unrhyw newidiadau posibl i’r dull gweithredu?**

Rydym yn ymwybodol o’r effeithiau dinistriol y gall camddefnyddio alcohol eu cael ar unigolion a’u teuluoedd mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys trais domestig. Drwy fynd i’r afael â chamddefnyddio alcohol, y disgwyl yw y byddai gostyngiad yn nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn union fel y gall ostwng achosion eraill o niwed sy’n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.

Mae ein ffocws o ran ein polisi ar alcohol yn ymwneud â lleihau niwed alcohol (a chyffuriau) i unigolion a theuluoedd yn bennaf – dyma’r dull yr ydym wedi’i fabwysiadu yng Nghymru ers nifer o flynyddoedd, ac rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid ar hyn. Rydym wedi cynyddu ein buddsoddiad mewn mynd i’r afael â chamddefnyddio sylweddau,

gan gynnwys camddefnyddio alcohol, i £67 miliwn eleni a bydd hyn yn cynyddu £2 filiwn ychwanegol yn 2024-25.

Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod angen ymagwedd benodol at gamddefnyddio alcohol i fynd i'r afael â phroblem benodol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac wrth gwrs mae ein cymorth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi'i deilwra i anghenion ac amgylchiadau'r unigolyn. Fodd bynnag, nid yw fy swyddogion wedi cael unrhyw sgyrsiau penodol ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y pwnc hwn nac unrhyw newidiadau posibl i'n hymagwedd at y polisi ar alcohol o ystyried y data o Arolwg Troseddu Prydain.  Rwyf wedi gofyn iddynt roi sylw i hyn a gallwn ystyried unrhyw addasiadau sy'n angenrheidiol i'n dull gweithredu.

Mae ein camau gweithredu ehangach i fynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol yn cynnwys cyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol. Credwn y bydd cyflwyno isafbris uned yn helpu i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ac yn cefnogi pobl i yfed yn gyfrifol. Mae'r Alban wedi gweld gostyngiad yn faint o alcohol sy'n cael ei yfed ers cyflwyno isafbris uned, a gobeithiwn y gwelwn ganlyniadau tebyg yng Nghymru.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau i sicrhau bod ystod o wasanaethau a chymorth ar gael i helpu pobl sydd â phroblemau alcohol. Mae atal y niwed a achosir gan gamddefnyddio alcohol yn rhan allweddol o'n hagenda camddefnyddio sylweddau ac mae'n parhau i fod felly drwy ein Cynllun Cyflawni presennol ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau a bydd yn rhan allweddol o unrhyw waith yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol addysg ac atal pan ddaw'n fater o leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Rydym yn gweithio i hyrwyddo canllawiau yfed risg isel prif swyddogion meddygol y DU, sy'n anelu at gefnogi pobl i wneud penderfyniadau gwybodus am eu harferion yfed. Mae negeseuon cyhoeddus ynghylch lleihau'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol hefyd yn allweddol i annog pobl i leihau faint o alcohol y maent yn ei yfed a pha mor aml y maent yn yfed. I gefnogi'r gwaith o hyrwyddo yfed cyfrifol a lleihau niwed alcohol, rydym yn ariannu Alcohol Change UK-sy'n cefnogi pobl i leihau eu defnydd o alcohol trwy eu rhaglenni addysg a'u gwaith.

Mae atal alcohol yn parhau i fod yng nghynllun hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu blaenoriaethau ar y cyd ar gyfer lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ledled Cymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wrthi'n cynhyrchu cyfres o adolygiadau tystiolaeth a fydd yn ein helpu i ddeall pa grwpiau i weithredu gyda nhw i fynd i'r afael ag yfed dan oed a thynnu sylw at ffactorau risg ac amddiffyn. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn ailddatblygu dull ymyriadau byr ar alcohol, a fydd yn galluogi gweithwyr iechyd proffesiynol i godi pryderon am yfed problemus a rhoi mynediad at wasanaethau triniaeth mewn modd sensitif, anfeirniadol.

**A allech roi manylion yn ymwneud â mynediad at wasanaethau cwnsela mewn ysgolion ar gyfer pobl ifanc a allai fod wedi bod yn dyst i drais ar sail rhywedd neu a allai fod wedi dioddef ohono, gan gynnwys amserlen ar gyfer hyfforddiant?**

Yn 2020 gwnaethom gyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'n pecyn cymorth gweithredu cwnsela mewn ysgolion ac yn y gymuned. Mae'r pecyn cymorth yn helpu awdurdodau lleol i ddatblygu a gweithredu eu polisïau a'u gwasanaethau cwnsela. Mae'r pecyn cymorth hefyd yn amlygu'r angen i hyrwyddo'r gwasanaeth ac y dylai fod yn gwbl gynhwysol, gan sicrhau mynediad cyfartal. Gall ysgolion wneud atgyfeiriadau yn uniongyrchol i'r gwasanaeth neu gall unigolion atgyfeirio eu hunain, neu gall aelodau o'r teulu eu hatgyfeirio ar eu rhan. Dylai'r gwasanaeth hefyd fod ar gael yn y gymuned ac yn hygyrch i'r plant hynny nad ydynt yn yr ysgol, megis plant sy'n cael eu haddysgu gartref neu mewn lleoliadau addysg

heblaw yn yr ysgol. Roedd data a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023 yn dangos bod 12,500 o blant a phobl ifanc wedi defnyddio’r gwasanaeth ym mlwyddyn academaidd 2021/22.

Mewn perthynas â hyfforddiant, mae’r pecyn cymorth yn pwysleisio bod yn rhaid i wasanaethau gyflogi cwnselwyr a goruchwylwyr sy’n aelodau o gyrff proffesiynol sy’n ymwneud â chwnsela neu seicotherapi a bod ganddynt felly god neu fframwaith moesegol a gweithdrefn gwyno sefydledig. Dylai'r rhain fod ar gael ac yn hygyrch i gleientiaid, ysgolion a darparwyr gwasanaethau. Cynghorir awdurdodau lleol a gwasanaethau a gomisiynir i sicrhau bod cwnselwyr yn 'gymwys i ymarfer' gyda phlant a phobl ifanc. Byddai hynny fel arfer yn golygu eu bod wedi cwblhau hyfforddiant cwnsela craidd digonol, ynghyd â hyfforddiant arbenigol ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Ym mis Mawrth 2022 fe wnaethom gyhoeddi ymchwil annibynnol i’r gwasanaethau cwnsela a ddangosodd arferion da ond a oedd hefyd yn tynnu sylw at amrywiadau a materion yn ymwneud ag ymwybyddiaeth. Rydym wedi sefydlu grŵp cwnsela gyda chynrychiolaeth o bob awdurdod lleol sy’n ceisio gwella’r ddarpariaeth ac ymestyn cymorth i blant iau o dan y trothwy Blwyddyn 6 presennol. Mae’r gwaith hwn yn adrodd i'r Bwrdd Goruchwylio a Chyflawni Gweinidogol ar gyfer Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant, a gadeirir ar y cyd gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a’r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb**
**a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice**
**Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

25 Medi 2023

Annwyl Eluned,

Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Diolch am roi tystiolaeth fel rhan o'n hymchwiliad i drais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i rai pwyntiau ychwanegol nad oeddem yn gallu ymdrin â nhw yn eich sesiwn dystiolaeth:

- Pa broffesiynau iechyd y mae'n ofynnol iddynt ymgymryd â Gofyn a Gweithredu o dan y dyletswyddau presennol, ac a oes gennych farn ynghylch a ddylid ehangu'r ddyletswydd honno ac i bwy?
- A allech gadarnhau a fydd trais ar sail rhywedd yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Iechyd Menywod?
- A allech ymhelaethu ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi meddygon teulu i roi 'gofal sy'n seiliedig ar berthynas' ar waith o ystyried y pwysau presennol ar wasanaethau meddygon teulu?
- Mae data Arolwg Troseddu Prydain yn nodi bod 38% o ddigwyddiadau trais domestig yn gysylltiedig ag alcohol. A allech nodi sut y mae'r ffigur hwn yn dylanwadu ar bolisi alcohol Llywodraeth Cymru? Er enghraifft, a ydych wedi cael sgyrsiau ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a/neu gyd-Weinidogion am unrhyw newidiadau posibl i'r dull gweithredu?
- A allech roi manylion yn ymwneud â mynediad at wasanaethau cwnsela mewn ysgolion ar gyfer pobl ifanc a allai fod wedi bod yn dyst i drais ar sail rhywedd neu a allai fod wedi dioddef ohono, gan gynnwys amserlen ar gyfer hyfforddiant?



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Gan ein bod wedi cyrraedd diwedd ein cyfnod casglu tystiolaeth, byddem yn ddiolchgar cael ymateb erbyn 9 Hydref 2023, os oes modd.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru
Cc Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

25 Medi 2023

Annwyl Huw,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

Ysgrifennaf yn dilyn fy llythyr dyddiedig 21 Mehefin, ac yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, i adrodd ar ail gyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo, a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf.

Yn bresennol yn y cyfarfod roedd yr Ysgrifennydd Gwladol, y Gwir Anrh Suella Braverman CB AS, fel y Cadeirydd, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban dros Gyfiawnder Cymdeithasol Shirley-Anne Somerville ASA, ac Uwch-swyddogion Gogledd Iwerddon Cathy Galway a Julie Cummings.

Roedd y cyfarfod yn gyfle imi fynegi'r pryderon sydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch agweddau ar y Bil Mudo Anghyfreithlon ac oedi Llywodraeth y DU o ran prosesu ceisiadau am loches. Codais hefyd bryderon o ran y materion parhaus sy'n ymwneud â llety.

Yn ogystal â'r trafodaethau am fudo, amlygais yr angen am well ymgysylltu a rhannu data ar bob agwedd ar Ddiogelwch a Diogelwch Gwladol i sicrhau dull cydweithredol llwyddiannus o fynd i'r afael â throseddau cyffuriau a bygythiadau diogelwch gwladol ledled y DU.

Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd a rhoddaf wybod ichi pan fydd dyddiad wedi'i bennu.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae rhagor o wybodaeth am y cyfarfod ar gael yma*:* Interministerial Group for Safety, Security and Migration Communiqué: 11 July 2023 - GOV.UK (www.gov.uk).

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.



**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo** |
| **DYDDIAD** | **25 Medi 2023** |
| **GAN** | **Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip** |

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, rwy'n eich hysbysu imi fynd i ail gyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo, a gynhaliwyd yn rhithiol ar 11 Gorffennaf, ac a ddaeth ag aelodau o'r pedair llywodraeth ynghyd.

Yn bresennol yn y cyfarfod yr oedd yr Ysgrifennydd Cartref, y Gwir Anrhydeddus Suella Braverman KC AS, a oedd yn ei gadeirio, ac Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Shirley-Anne Somerville ASA. Roedd Uwch Swyddogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon ac Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon hefyd yn bresennol yn absenoldeb y Gweinidogion.

Mynegais fy siom yn y cyfarfod nad oedd Llywodraeth y DU wedi ystyried pleidlais y Senedd i wrthod cydsynio i'r Bil Mudo Anghyfreithlon. Amlygais y pryderon sydd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r effaith negyddol y bydd y Bil yn ei chael ar blant ar eu pen eu hunain yng Nghymru sy'n ceisio lloches, a'r angen inni fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu canllawiau i sicrhau nad yw deddfwriaeth Llywodraeth Cymru yn cael eu tanseilio.

Yn ystod y cyfarfod, roeddwn i hefyd wedi ailbwysleisio nod Llywodraeth Cymru i Gymru fod yn Genedl Noddfa a'n hymrwymiad parhaus i symud ceiswyr lloches i ardaloedd gwasgaru a sicrhau cydlyniant cymunedol – gan gynnwys pa mor hanfodol yw cyfathrebu trylwyr a chyson rhwng darparwr preifat y Swyddfa Gartref ac Awdurdodau Lleol, er mwyn sicrhau bod Cymru'n cyrraedd ei tharged o ran llety. Soniais am y pryderon ynghylch y ffaith bod hyd y cyfnod i brosesu ceisiadau lloches yn cynyddu, a'r effaith negyddol y mae hynny yn ei chael ar y ceiswyr lloches a'r economi. Mewn cysylltiad â hynny, gofynnais unwaith eto am adolygiad o bolisi presennol Llywodraeth y DU sy'n atal ceiswyr lloches rhag gweithio am y deuddeng mis cyntaf ar ôl dod i'r DU.

Canmolais y gwaith caled sy'n cael ei wneud gan swyddogion Llu'r Ffiniau i fynd i'r afael â'r mewnlifiad cynyddol o gyffuriau anghyfreithlon i'r DU, a chroesawais y gwaith presennol sy'n cael ei wneud i ddatblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth â Llywodraeth Cymru i wella arferion rhannu gwybodaeth. Mynegais y byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu'r cyfle i gymryd rhan ym mhob achos sy'n ymwneud â throseddu a rhoddais sylw i fanteision defnyddio dull cydweithredol wrth fynd i'r afael â throseddu a bygythiadau i Ddiogelwch Cenedlaethol.

Mae cyd-hysbysiad byr wedi'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU: Interministerial Group for Safety, Security and Migration Communiqué: 11 July 2023 (Saesneg yn Unig)

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Eluned Morgan AS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Julie Morgan AS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Lynne Neagle AS

9 Hydref 2023

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

Annwyl Eluned, Julie a Lynne,

Fel y llynedd, hoffem gael gwybodaeth ysgrifenedig i gefnogi ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25. Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael.

Byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ysgrifenedig erbyn 19 Rhagfyr 2023 fan bellaf. Nodaf fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 19 Rhagfyr 2023. Er ein bod fel arfer yn gofyn am y wybodaeth ysgrifenedig ychydig ddyddiau ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft, oherwydd dyddiad cyhoeddi arfaethedig y gyllideb ddrafft, rydym yn gofyn am y wybodaeth hon ar yr un diwrnod. Er mwyn helpu i liniaru rhai o'r problemau wrth baratoi'r dystiolaeth ysgrifenedig a rhoi po fwyaf o amser â phosibl i chi baratoi'r cyflwyniad, rydym yn anfon ein cais yn gynharach yn nhymor yr hydref. Cysylltwch â'm clercod os ydych yn pryderu na fyddwch yn gallu anfon y wybodaeth erbyn y dyddiad cau arfaethedig o ystyried amserlen y gyllideb.

O ystyried y bydd gan bwyllgorau mewn rhai o'r meysydd a restrir yn yr atodiad i'r llythyr hwn ddiddordeb hefyd, rydw i wedi anfon copi at gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad A: Cais i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## 1. Dyraniadau ar gyfer plant a phobl ifanc

Dyraniadau ym Mhrif Grŵp Gwariant Iechyd drwy Weithredu, a Llinell Wariant yn y Gyllideb (fel sy'n uniongyrchol berthnasol i blant a phobl ifanc):

- Cyllideb Ddrafft 2024-25
- Dyraniadau y Gyllideb Derfynol 2023-24
- Cyllideb Atodol Gyntaf 2023-24
- Alldro rhagolygon 2023-24
- Cyllideb ddangosol 2025-26 (os y pennwyd)

Disgrifiad o unrhyw newidiadau i linellau sylfaen a ddefnyddiwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 o Gyllideb Atodol Gyntaf Mehefin 2023.

## 2. Asesiadau o effaith

- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant Cyfunol ar draws pob portffolio: Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) i lywio'r dyraniadau yn y Gyllideb drafft 2024-25.
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2024-25.
- Effeithiau eraill: Manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn ystyriaethau o gydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## 3. Y Rhaglen Lywodraethu

Dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 a'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid ar gyfer:

| Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Dyraniadau y gofynnwyd amdanynt a manylion naratif |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal. | Dyraniadau ar gyfer cyflwyno cymorth i rieni y mae eu plant ar gyrion y system gofal, sydd i'w ddarparu yn unol â fframwaith cenedlaethol. |
| Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth. | Dyraniadau ar gyfer 2024-25 ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer yr 8 prosiect sydd bellach yn weithredol (a faint o leoliadau ychwanegol y mae hyn yn eu hariannu).<br>Dyraniadau ar gyfer cyflawni unrhyw brosiectau newydd (a faint o leoliadau newydd ychwanegol y mae hyn yn eu hariannu). |
| Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. | Dadansoddiad blynyddol o sut mae'r ymrwymiad i wario £68m yn cael ei rannu yn ôl cyfanswm dros y tair blynedd 2022-23, 2023-24, 2024-25.<br>Alldro terfynol ar gyfer 2022-23 / dadansoddiad o i bwy y cafodd ei ddyrannu ac i ba ddiben (yn ôl awdurdod lleol a thrydydd sector)<br>Alldro rhagolwg ar gyfer 2023-24 / dadansoddiad o i bwy y cafodd ei ddyrannu ac i ba ddiben (yn ôl awdurdod lleol a thrydydd sector)<br>Dyraniadau manwl wedi'u cynllunio ar gyfer 2024-25 (neu'r broses a ddefnyddir i benderfynu ar hynny) |
| Cymorth arbenigol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal. | Mae manylion y 32 o brosiectau a nodwyd hyd yn hyn gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cwmpasu Cymru gyfan a sut y caiff y rhain eu hariannu gan y Gronfa Integreiddio Ranbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol fel y manylir yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf y Rhaglen Lywodraethu. |
| Ariannu gofal plant i fwy o deuluoedd lle mae rhieni mewn addysg a hyfforddiant neu ar gyrion byd gwaith. | Dyraniadau cyffredinol ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn 2024-25.<br>Y gost yn 2023-24 ar gyfer yr 438 o deuluoedd ychwanegol a chyfanswm y costau a ddyrannwyd yn 2024-25 ar gyfer yr amcangyfrif o 3,000 yn fwy o deuluoedd cymwys fel y cyfeiriwyd atynt yn Adroddiad Blynyddol diweddaraf y Rhaglen Lywodraethu. |
| Ehangu darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn raddol i gynnwys pob plentyn 2 oed, gyda phwyslais arbennig ar gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg. | Dyraniadau a'r hyn y bwriedir iddynt ei gyflawni yn 2024-25<br>Gwybodaeth ynghylch a fydd yn gynnig 30 awr llawn i bob plentyn dwy oed, ac erbyn pryd y caiff hyn ei gyflwyno |

| | |
|---|---|
| Dechrau'n Deg. | Refeniw a chyfalaf |

## 4. Cynllun Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy

Cyfanswm y Cynllun a dadansoddiad o'r holl grantiau sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc.

## 5. Cronfa Newid Plant sydd â Phrofiad o fod mewn Gofal

Cyfanswm y Gronfa a dadansoddiad o'r holl ddyraniadau.

## 6. Gweithlu gofal cymdeithasol plant

Unrhyw ddyraniadau sy'n gysylltiedig â chynorthwyo awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag ansefydlogrwydd y gweithlu ym maes gofal cymdeithasol plant, megis cyfraddau swyddi gwag a'r defnydd o staff asiantaeth, a nodir yn ein Hadroddiad ar Ddiwygio radical ar gyfer gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac adolygiad cyflym diweddar Arolygiaeth Gofal Cymru o drefniadau amddiffyn plant Medi 2023.

## 7. Iechyd Plant

- Dyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 a'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cyllid ar gyfer:
  - Iechyd y cyhoedd fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc, gan gynnwys brechu
  - Strategaeth gordewdra
  - Gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, a gwasanaethau i gefnogi iechyd meddwl amenedigol a pherthnasoedd rhwng rhieni a babanod
  - Gwasanaethau anhwylderau bwyta
  - Atal hunanladdiad fel y mae'n berthnasol i blant a phobl ifanc
  - Camddefnyddio sylweddau, gan gynnwys fêpio ymhlith plant a phobl ifanc
  - Gwasanaethau niwroddatblygiadol

## 8. Costau byw

- Byrddau Iechyd: Darpariaeth gwasanaethau i blant a phobl ifanc gan y Byrddau Iechyd yng Nghymru ac effaith costau cynyddol ynni ar y ddarpariaeth hon.

- **Gwasanaethau cymdeithasol:** Polisi a goruchwylio'r ddarpariaeth o holl weithgareddau gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac unrhyw drafodaethau cysylltiedig â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

- **Tlodi plant:** Manylion am ba drafodaethau sydd wedi'u cynnal gyda Gweinidogion perthnasol eraill mewn perthynas â dyraniadau sy'n cael effaith sylweddol ar iechyd a gofal cymdeithasol plant, er enghraifft gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol o ran cyllideb Comisiynydd Plant Cymru a materion polisi ehangach fel tlodi plant.

## 9. Costau deddfwriaeth

- Goblygiadau ariannol neu a ragwelir yn 2022-23 a 2023-34 o unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc o fewn portffolio'r Gweinidog.
- Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol a wneir yn Senedd y DU.

Senedd Cymru
**Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Rebecca Evans AS,

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

22 Medi 2023

Annwyl Rebecca,

**Papurau tystiolaeth i gefnogi Cyllideb Ddrafft 2024-25**

Diolch yn fawr am eich llythyr ar 8 Medi.

Rwy'n ddiolchgar am y modd adeiladol yr ydych wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyllid ynghylch ffyrdd y gellir gwella tystiolaeth ysgrifenedig weinidogol ar gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn fy llythyr ar 23 Mehefin.

Rwy'n croesawu eich bwriad i gadarnhau pryd y bydd Gweinidogion yn darparu eu papurau tystiolaeth i bwyllgorau'r Senedd cyn cylch cyllideb 2024-25. Rwyf hefyd yn ddiolchgar y bydd Pwyllgorau'r Senedd yn cael cynnig briff technegol ar y Gyllideb Ddrafft.

O ran eich cais am arwydd clir gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr hyn fyddai'n cael ei ystyried yn hanfodol i'w gynnwys mewn papurau tystiolaeth weinidogol, ni fyddai'n briodol i mi ddarparu un rhestr o gynigion heb ymgynghori â Chadeiryddion y Pwyllgorau yn gyntaf.

Er fy mod yn gweld manteision o ran datblygu templed lefel uchel ar gyfer papurau tystiolaeth, ac er fy mod yn cefnogi cydweithredu rhwng pwyllgorau i osgoi dyblygu a gorgyffwrdd mewn meysydd ffocws yn ystod craffu ar y gyllideb,

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

gall fod yn anodd cyflawni dull cyson yn ymarferol, o gofio ei bod yn naturiol y bydd gan bwyllgorau flaenoriaethau a meysydd ffocws gwahanol.

Hoffwn hefyd warchod rhag datblygu templed a allai feithrin dull rhagnodol o ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig, a allai wanhau'r wybodaeth sydd ar gael i bwyllgorau unigol yn y pen draw wrth iddynt geisio dwyn penderfyniadau gwariant gweinidogol i gyfrif.

Mae'r anawsterau y mae Gweinidogion yn eu hwynebu wrth ddarparu manylion penodol ar gyfer pwyllgorau sy'n ymwneud â phob MEG yn ystod cyllideb 2024-25 yn enghraifft o hyn. Er fy mod yn cydnabod yr heriau a ddaw yn sgil amserlen cyllideb eleni, ni ddylai hyn rwystro Pwyllgorau rhag gofyn am wybodaeth fanwl yn ymwneud â phortffolios unigol gan fod hyn yn hanfodol i lywio sesiynau tystiolaeth cyhoeddus gyda Gweinidogion, yn enwedig pan fo'r amser i ymgynghori â rhanddeiliaid wedi'i gyfyngu.

Felly, rwy'n barod i archwilio ffyrdd y gellid datblygu templed, er fy mod hefyd yn cydnabod y gallai gymryd amser i sicrhau consensws ar y mater hwn a'i bod yn annhebygol y cytunir ar unrhyw newidiadau ar gyfer cylch y gyllideb sydd i ddod.

Rwy'n anfon copi o'r ymateb hwn i holl bwyllgorau'r Senedd sydd â diddordeb mewn craffu ar y gyllideb er mwyn hwyluso trafodaethau pellach, a byddaf yn codi'r mater hwn yng nghyfarfod nesaf Fforwm y Cadeiryddion ar 23 Hydref.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George MS
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
SeneddIechyd@senedd.cymru

Jenny Rathbone MS
Cadeirydd
Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

4 Hydref 2023

Annwyl Russell & Jenny

Rydych ddiau yn ymwybodol o'r adroddiadau diweddar yn y wasg am lawfeddygon benywaidd yn cael eu haflonyddu yn rhywiol yn y gweithle, ac wedi'ch dychryn gan y fath ymddygiad gymaint â minnau. Gofynnais i'm swyddogion geisio sicrhad oddi wrth bob cyfarwyddwr meddygol yng Nghymru o ran y trefniadau sydd ganddynt i atal achosion o ymddygiadau gwahaniaethol agored, casineb at ferched a/neu dorri diogelwch rhywiol.

Mae pob cyfarwyddwr meddygol wedi rhannu eu polisïau diogelu sy'n unol â'n gofynion cenedlaethol. Nid oes gan bob corff bolisïau diogelwch rhywiol penodol ac mae'r rhai sydd heb wedi cydnabod y byddent yn atgyfnerthu eu trefniadau drwy ddarparu staff â chanllawiau am iechyd a llesiant rhywiol ac amlinellu'r broses y maent yn gallu adrodd digwyddiadau rhywiol drwyddi. Mae pob un wedi mynegi dymuniad i hyrwyddo ymrwymiad clir i atal niwed rhywioledig.

Cyn i'r adroddiadau ymddangos yn y wasg, roedd Gweithrediaeth GIG Cymru wedi dechrau sefydlu Grŵp Cydgysylltu Cenedlaethol ar gyfer Diogelwch Rhywiol yn GIG Cymru yn barod. Mae'r Grŵp yn defnyddio dull gorchwyl a gorffen i gwblhau ymarfer sicrhau byr, yn bennaf mewn ymateb i'r adroddiad gan y Rhwydwaith Hawliau Menywod, *When We Are At Our Most Vulnerable,* sy'n cynnwys nifer bryderus o uchel o adroddiadau o drais rhywiol mewn ysbytai.

Mae'r Grŵp wedi canolbwyntio ar weithredu i gwblhau'r swyddogaethau sicrhau buan gofynnol gan gynnwys:

- ymarfer casglu data ar draws cyrff GIG Cymru a Chanolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol
- sicrhau bod cyrff yn cwblhau hunan-asesiad ar sut y maent yn atal niwed rhywiol i gleifion a staff a sut y maent yn ymateb pan fo niwed rhywiol, gan gynnwys troseddoldeb, yn cael eu datgelu neu eu gweld.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn ehangu’r ddadl hon ac rydym yn glir am ein disgwyliadau ar draws y GIG ehangach, sy’n cynnwys y Cylchlythyr Iechyd Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, *Fframwaith GIG Cymru codi llais heb ofn*. Mae’r Fframwaith yn cynnwys pecynnau cymorth ymarferol, a ddatblygwyd ar y cyd gyda’n cydweithwyr yn y cyflogwyr ac undebau llafur, ac, yn y man, cyhoeddir adnoddau ar blatfform Gwella Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Rhannwn hefyd y gwaith diogelwch rhywiol y mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi’i datblygu i fynd i’r afael â’r defnydd o bŵer a dylanwad.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Dear Jenny,

We are writing in response to your letter dated 25th September 2023 requesting further information regarding Ask and Act, the delivery of which has been the responsibility of Welsh Women's Aid since its initial development in 2016. For context, Welsh Women's Aid are funded to provide accredited Groups 2 and 3 Train the Trainer training to public and specialist sector practitioners across Wales as part of the National Training Framework for Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (VAWDASV). This training is commonly referred to as Ask and Act. Currently, the relevant authorities under the National Training Framework include county and borough councils, local health boards, fire and rescue authorities, and NHS trusts.

Complementing Ask & Act, we also deliver Trusted Professional training as part of our Change that Lasts whole systems approach to tackling gender-based violence and abuse. This is a one-day training course for professionals throughout Wales who come into contact with survivors of VAWDASV. The course trains individuals to respond appropriately to disclosures and refer survivors and perpetrators to specialist support services. In the last three years, we have trained 180 professionals through this route.

*Funding Received*

Welsh Women's Aid was funded by Welsh Government to develop the Ask and Act training materials for the initial Train the Trainer courses in 2016. We continued to develop and deliver the training for the cross-Wales rollout, with our contract being renewed in 2018 and then again in 2022.

The current contract awarded to Welsh Women's Aid totals £132,650 and runs from November 2022 to March 2025. The Welsh Government also provides funding directly to relevant regional authorities for onward delivery of Ask & Act training sessions to staff and they submit returns to Welsh Government directly.

*How are you reporting progress to Welsh Government?*

We complete quarterly reports which are provided to the Welsh Government and meet regularly with Welsh Government officials to monitor progress. The regular reports provided to Welsh Government include the following information:

- Number of practitioners trained to deliver Ask and Act
- Number of practitioners who have completed assessments
- Of the above, the number who have passed and the number of resubmissions
- Qualitative feedback from learners
- Emerging themes and/or patterns
- Challenges and learning from delivery

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551
info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

*How are you measuring the success of the training you deliver?*

Welsh Women's Aid pride ourselves on our robust evaluation processes which aim to demonstrate the impact of Ask and Act training on learners. These processes include:

- A pre-course survey which aims to establish the level of knowledge and skill of the learners before taking part in the training
- A post-course survey to measure learner confidence, knowledge, practice, and skills
- A further survey between 3 and 9 months post-training to gather longer-term reflections and to understand how learners have embedded learning from training into their individual practice
- Practitioners are also asked to provide case studies, if possible, to give us further opportunities to increase engagement with learners and improve the training

This year, we have trained a total of 80 learners. All learners who completed feedback for Group 2 and Group 3 training rated the trainer's subject knowledge as 'excellent'. Learners who provided feedback stated that the training left them *'more empowered to continue supporting others'*.

*Please can you outline any discussions you may have had with the Welsh Government about expanding the Ask and Act scheme to other organisations, including your view on who this might include?*

Discussions have taken place regarding the expansion of Act and Act to practitioners outside the public sector, including those in the police, housing, and the private sector. In our view, the training could be expanded more widely to professionals, for example, in housing associations, food banks, GP surgeries, public transport, Citizen's Advice, Job Centre plus and organisations such as Sports Wales. This would ensure the appropriate individuals are adequately trained and confident to encourage disclosures and respond effectively. We believe such an expansion would ensure every interaction between survivors and the relevant professionals counts and would guarantee the provision of consistently high-quality services across Wales.

*The additional funding that would be needed to roll out the scheme further, and whether Welsh Women's Aid has the capacity to deliver it?*

It is challenging to provide a definitive response regarding the additional funding required as it would be dependent on several factors such as the types of training required and the number of people to be trained.

However, Welsh Women's Aid and our nine implementation partners (DASU North Wales, Threshold DAS, RASASC, West Wales DAS, Calan DVS, Bawso, Swansea Women's Aid, Thrive and Safer Wales) have sufficient capacity to deliver the training if it were to be rolled out further. The implementation partners are located in different regions across Wales, which we believe bring vital local knowledge to the training provision.

We hope the information contained in this letter is of use to the Committee, we are happy to provide any further information as required.

Yours Sincerely,

Jennifer Mills
Policy Officer, Welsh Women's Aid

Pendragon House, Caxton Place | Pentwyn, Cardiff | CF23 8XE
Tel: 02920 541551
info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Welsh Women's Aid is a registered charity in England and Wales, No. 1140962
and a company limited by guarantee registered in England and Wales, No. 07483469

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Sara Kirkpatrick
Prif Weithredwr
Cymorth i Ferched Cymru

25 Medi 2023

Annwyl Sara

Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Diolch am gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'n hymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd.

Yn ystod ein hymchwiliad, rydym wedi clywed am bwysigrwydd y cynllun Gofyn a Gweithredu, a deallwn mai Cymorth i Ferched Cymru sy'n gyfrifol am gyflwyno'r hyfforddiant. A allech chi nodi pa gyllid rydych chi'n ei gael gan Lywodraeth Cymru i ddarparu hyfforddiant Gofyn a Gweithredu, sut rydych chi'n rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am y cynnydd a wneir a sut rydych chi'n mesur llwyddiant yr hyfforddiant rydych chi'n ei ddarparu? Hefyd, a fyddech cystal ag amlinellu unrhyw drafodaethau a gawsoch â Llywodraeth Cymru ynghylch ehangu'r cynllun Gofyn a Gweithredu i sefydliadau eraill, gan gynnwys pwy, yn eich barn chi, y dylid eu cynnwys, y cyllid ychwanegol y byddai ei angen i ehangu'r cynllun ymhellach ac a oes gan Gymorth i Ferched Cymru y gallu i'w ddarparu.

Gan ein bod wedi cyrraedd diwedd y cyfnod casglu tystiolaeth, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 9 Hydref, os oes modd.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

10 Hydref 2023

**Tlodi plant**

Annwyl Jenny,

Diolch i chi am wahodd aelodau o'n Pwyllgor i gymryd rhan yn eich gwaith presennol ar Strategaeth Tlodi Plant Ddrafft Cymru 2023 Llywodraeth Cymru. Mae gwahoddiadau o'r fath yn ein galluogi i wneud cysylltiadau a rhannu tystiolaeth berthnasol i helpu i gryfhau gwaith ein gilydd. Mae hefyd yn helpu i wneud y mwyaf o effaith darnau unigol o dystiolaeth.

Mae fy nghysylltiad â'ch gwaith wedi ein galluogi i nodi rhai materion roeddem am eu dwyn i'ch sylw ac rydym yn gobeithio y bydd hynny o fudd i'ch trafodaethau.

Yn gynharach eleni, lansiwyd ein hymchwiliad yn gofyn a yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant. Mae cwmpas yr ymchwiliad yn cynnwys yr holl ddarpariaeth gofal plant ac ysgol statudol rhwng 0 ac 16 oed, ac mae'n cwmpasu niwroamrywiaeth; anableddau corfforol, synhwyraidd neu ddysgu.

Ochr yn ochr â'n tystiolaeth ysgrifenedig a llafar ffurfiol, rydym wedi bod yn siarad â theuluoedd yn fwy anffurfiol. A hynny drwy ymweliadau ag ysgolion arbennig, Canolfan Serennu yng Nghasnewydd ac ASD Rainbows yn Aberpennar. Rydym hefyd wedi bod yn dod ag enghreifftiau o'n gwaith fel Aelod unigol o'r Senedd.

Mae ein tîm Ymgysylltu â Dinasyddion wedi cynnal dros 30 o gyfweliadau teuluol yn cwmpasu pob ardal yng Nghymru. Er ein bod yn dal i gwblhau crynodeb y gwaith hwn, gallwn rannu rhai o'r



Senedd Cymru
Welsh Parliament

straeon perthnasol â chi. Rydym wedi bod yn clywed tystiolaeth bwerus iawn gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd o'r effaith y mae mynediad anghyfartal at addysg a gofal plant yn ei chael ar bob agwedd ar eu bywydau, a'r effeithiau tymor hwy y gall y mynediad anghyfartal hwn eu cael.

Er ein bod yn dal i gasglu tystiolaeth ar yr ymchwiliad hwn, roeddem am rannu rhywfaint o'r wybodaeth rydym wedi'i chasglu hyd yn hyn sy'n berthnasol i'ch gwaith tlodi plant. Mae hyn yn cynnwys yr effaith y gall diffyg gofal plant hygyrch a darpariaeth ysgol ei chael ar allu rhiant/gofalwr i weithio, yn ogystal â'r costau ychwanegol y mae'n rhaid i'r teuluoedd hyn eu talu.

Er ein bod wedi casglu ystod o dystiolaeth ar y mater hwn, nid oedd yn llinyn penodol o'n cylch gorchwyl. Felly mae'n bosibl, pe bai hyn wedi'i gynnwys yn y cylch gorchwyl, y byddem wedi casglu mwy fyth o wybodaeth. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod hyn wedi dod yn thema glir drwy'r dystiolaeth yn awgrymu ei fod yn fater mawr i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Byddwn hefyd yn ysgrifennu at Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar y materion hyn, ond roeddem am sicrhau y gellid ystyried y dystiolaeth berthnasol ar gyfer eich gwaith presennol. Byddwn hefyd yn anfon copi atoch o'r ohebiaeth â'r Gweinidogion hyn yn y dyfodol.

## Rhwystrau sy'n atal rhieni a gofalwyr rhag gweithio

Mae gennym nifer o dystiolaethau personol gan deuluoedd sydd naill ai'n methu gweithio o gwbl neu sy'n methu gweithio nifer yr oriau yr hoffent weithio oherwydd na allant gael mynediad at y gofal plant iawn. Mae'r mater hwn yn parhau i lawer o deuluoedd wrth i'r plentyn fynd yn hŷn a mynd i'r ysgol.

### Cael mynediad at ofal plant cynhwysol

Clywsom dystiolaeth bwerus gan riant a oedd yn gweithio ym maes nyrsio pediatrig sydd, ar hyn o bryd, ar seibiant gyrfa o swydd y mae'n hoff iawn ohoni oherwydd nad yw wedi gallu sicrhau gofal plant priodol. Pan ddaeth o hyd i ofal plant ymhen amser, nid oedd yn gallu cynyddu'r oriau, er ei fod yn barod i dalu am hyn ei hun. Mae'r rhiant yn parhau i fethu gweithio oherwydd nad yw bellach yn gallu sicrhau darpariaeth gofleidiol o ddarpariaeth feithrin yr ysgol.[1]

Dyfynnodd Mudiad Meithrin riant sengl a oedd "wedi gorfod rhoi'r gorau i'w gwaith oherwydd nad oedd cyllid ar gael i'w phlentyn ag anghenion dwys i fynychu gofal cofleidiol ar safle'r ysgol erbyn hyn". Dywedodd y rhiant yma ei bod yn haws pan oedd ei merch yn iau ond nad yw'n gallu gweithio nawr oherwydd nad oes gofal plant addas na rhywle sy'n cynnig gofal cofleidiol ar gyfer ei hysgol.

[1] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023

Mae'r rhiant wedi sôn bod colli gwaith yn "ergyd ddwbl" oherwydd yr effeithiau ariannol ac iechyd meddwl.[2]

Gellir cael problemau hyd yn oed pan fo gofal plant yn cael ei sicrhau. Soniodd un rhiant am sicrhau lle gofal plant. Roedd nifer o sesiynau ymgartrefu llwyddiannus, ond y diwrnod cyn i'r gofal plant ddechrau, dywedodd y darparwr wrtho nad oedd yn gallu cefnogi'r plentyn. Dywedodd y rhiant ei bod yn ffodus bod ei chyflogwr yn gefnogol ond tynnodd sylw at effeithiau ymarferol ac emosiynol colli lleoliad gofal plant y diwrnod cyn y disgwyliwyd iddo ddechrau.[3]

Tynnodd Mudiad Meithrin sylw at yr effaith y gall materion staffio i ddarparwyr gofal plant ei chael ar allu darparu gofal plant rheolaidd a chynaliadwy. Dywedodd fod rhieni wedi dweud wrtho mai staffio, yn aml, oedd y rheswm nad oedd eu plant yn gallu mynd mor rheolaidd â phlant eraill, ac y bydd yr anghysondeb hwn "yn achosi problemau i rieni/gofalwyr sy'n gweithio…"[4]

Soniodd un o'r rhieni a gymerodd ran yn ein cyfweliadau teuluol nad oedd gofal plant yn gweithio i'w deulu:

> *"… dw i'n cael trafferth ffeindio lle sy'n gallu delio â'i anghenion […] does dim llawer o lefydd sy'n gallu gwneud hynny […]nes i roi cynnig ar ofal plant ac roedd e yno ddwywaith ac o'n nhw ddim yn gallu gwneud iddo fe weithio, o'n i'n gorfod cadw pigo fe lan."*[5]

Rydym wedi clywed am yr ymdrech i gydbwyso cyfrifoldebau gwaith, a'r pwysau y mae hyn yn eu rhoi ar deuluoedd. Dywedodd un rhiant wrthym fod ei fab sy'n gymwys i gael 12 awr o addysg blynyddoedd cynnar yn cael 5 awr yn unig, a bod ganddo hawl i 17 awr o ran gofal plant ond nad yw'n cael dim:

> *"I am left doing a full time job on 5 hours childcare a week. …is missing out on the early years foundation phase he's entitled to. He spends large parts of his days underestimated in front of screens as I have no other way of keeping him occupied so he doesn't cause disturbance while I take work calls, many of which are of a sensitive nature. I work with victims of domestic violence and modern day slavery.*
>
> *As a full time working parent I am reaching crisis point. I have no family members who can care for… I cannot use a childminder as… is impulsive around roads and runs very fast and there is a high risk he would run Into a road and a childminder*

[2] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51, Mudiad Meithrin

[3] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023

[4] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51, Mudiad Meithrin

[5] Gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor PPIA (nodyn cyhoeddedig i ddilyn)

*be unable to catch him. I own my own home with a mortgage. I cannot stop work as won't be entitled to benefits."*[6]

At hynny, cododd rhanddeiliaid bryderon am ddarpariaeth gofal plant cynhwysol gyfyngedig. Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol y canlynol:

> *"Our members are concerned that private nurseries are difficult for children with special education needs and disabilities (SEND) to access to enable parents to go to work. They suggest there is inequitable access to funding for the additional support or equipment necessary to include children with additional needs in settings across Wales - some areas will fund equipment/support while others will not."*[7]

Ond tynnodd Blynyddoedd Cynnar Cymru sylw at y ffaith bod teuluoedd yn aml yn gorfod gwneud iawn am y diffyg cyllid:

> *"If a child needs additional adult support or resources to attend childcare, this can often be limited, for example, if a local authority scheme only offers 5 hours one to one support a week but the child needs to attend for 15 hours to enable the parent to work how is this shortfall managed."*[8]

Dywedodd Oxfam Cymru fod gofal plant yn parhau i fod yn un o'r prif resymau y mae menywod yn economaidd anweithgar. Dywedodd nad yw 25.5 y cant o fenywod economaidd anweithgar yn gweithio oherwydd cyfrifoldebau teuluol a gofal cartref.[9]

## Cael mynediad at ddarpariaeth ysgol gynhwysol

Hyd yn oed pan fydd plant yn cyrraedd yr oedran i gael mynediad at ddarpariaeth ysgol statudol, mae teuluoedd yn canfod bod yn rhaid iddynt fod ar gael drwy'r dydd, sy'n golygu bod gwaith yn amhosibl yn aml.

Soniodd un a ymatebodd i'n hymgynghoriad am y brwydrau parhaus y mae'n eu cael wrth gael mynediad at addysg i'w fab sydd â niwed i'r ymennydd yn dilyn tiwmor ar yr ymennydd.

> *"He is in ....primary has one to one support for 7.5 hours a week!!!!! There have been horrendous behavioural issues in school to the point..... stays in school 20-30 mins unsupervised then has to be collected. The only way.... remains in school currently is if myself or my son go in with him, stay with him, supervise him, try to teach him and ultimately take responsibility for him.*

---

6 Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 04, Unigolyn

7 Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 30, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

8 Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 53, Blynyddoedd Cynnar Cymru

9 Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57, Oxfam Cymru

*"I was working but had to give up my job as what employer will let you leave after 20 minutes on a repeated basis. Childcare options for children with needs are very limited, I'm a single parent with no local family support and am ex husband who is very intermittent in his commitment to my son."*[10]

Dywedodd rhiant arall wrthym fod ei blentyn yn aml yn cael ei "chicio allan o'r ysgol" oherwydd na all y staff ymdopi, ac y cysylltir ag ef dro ar ôl tro i ddod i'w chodi. O ganlyniad, mae'n amhosibl i'r rhiant weithio, gan nad yw'n gwybod pryd y bydd yr ysgol yn ei alw.[11] I riant arall, mae'r amserlen lai y mae ei blentyn yn ei dilyn yn golygu'r canlynol:

*"Dw i wedi gorfod rhoi'r gorau i waith – dw i'n cael fy nosbarthu fel gofalwr, os oedd opsiynau ar gael i fi, byddwn i wedi achub arnyn nhw, o'n i wrth fy modd yn gweithio ond roedd yr amserlen lai'n gwneud pethau'n gyfyngol iawn. Nawr mae'n rhaid i ni oroesi ar fudd-daliadau."*

Aeth ymlaen i ddweud y byddai'n fodlon i'w blentyn ddilyn amserlen lai pe bai "gofal cofleidiol" yn cyd-fynd â hi pan na fydd yn dysgu ond y bydd dan ofal yr ysgol. Byddai hyn yn galluogi'r rhiant i achub ar gyfleoedd gwaith.[12]

Tynnodd Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector sylw hefyd at yr effaith y gall amserlenni llai neu waharddiadau ei chael ar allu teulu i weithio:

*"But we know that where pupils are regularly excluded, actually, parents are far more likely to only be able to work part time because they know that they've got to keep picking them up, and I think SNAP alluded to that—that parents were being disciplined in work. So, an exclusion for a child, apart from them missing out on so much socialisation, let alone education, really has an impact on the whole family and the parents as well."*[13]

Gofynnwyd i un o'r rhieni a gymerodd ran yn ein cyfweliadau teuluol a yw'n gallu gweithio dan oriau ysgol presennol y plentyn, gan ddweud "fyddai neb eisiau fi am ryw ddwy awr y dydd, neb."[14]

Dyfynnodd Oxfam Cymru riant a ddywedodd y canlynol:

*""If you have a disabled child, it is impossible to work full-time. Childcare for disabled children is next to non-existent. School holidays are impossible. They don't even get the same amount of time in school as non-disabled children. Her school day is 30 minutes shorter every day; she has 2.5 hours less schooling per week than her non-disabled sibling!*

---

[10] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 12, Unigolyn

[11] Gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor PPIA (nodyn cyhoeddedig i ddilyn)

[12] Gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor PPIA (nodyn cyhoeddedig i ddilyn)

[13] Y Pwyllgor PPIA, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 292

[14] Gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor PPIA (nodyn cyhoeddedig i ddilyn)

*We have to use hours meant to be for respite to cover the gap between school finishing (early because she doesn't get a full school day - why??) and work finishing. Disability discrimination at its finest."*[15]

Dywedodd Fforwm Cymru Gyfan hefyd wrthym am y ffactorau gofal eraill a allai effeithio ar allu rhiant/gofalwr i weithio:

*"... That lack of specialised support—and this is extensive, because that specialised support could be tube feeding, it could be toilet changes, it could be sensorial needs, it could be specialised autism support—the lack of that means that the parent is going to have to have an impact on their own life and employment, having to come and pick up the child early, being reprimanded both from the school and their job, but also it's watching your child struggle through years of education and having to make the decision of, 'Am I going to watch my child struggle or am I going to put my well-being in second place, my job, my interests, my life, and stay at home and home school my child?'"*[16]

Rydym hefyd yn clywed enghreifftiau o deuluoedd sy'n teimlo mai addysg yn y cartref yw'r unig ddewis i'w plant:

*""I've always had to homeschool my child. The schools around where we live wouldn't take them and the nearest school was so far away logistically it wouldn't make sense, we would have spent all day travelling back and forth and with my child's disabilities, that wouldn't be possible." Ceredigion"*[17]

## Mynediad at ofal plant ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau

Mae problemau sylweddol hefyd gyda theuluoedd yn gallu sicrhau darpariaeth gynhwysol mewn clybiau ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau. Mae rhieni a gofalwyr wedi sôn mai dim ond swyddi sy'n cynnig gweithio yn ystod y tymor y gallant eu gwneud, neu orfod rhoi'r gorau i weithio'n gyfan gwbl. Efallai yr hoffech fod yn ymwybodol o'r adroddiad gan Contact ar ddarpariaeth clybiau yn ystod y gwyliau i blant anabl.

Rhoddodd Adele Rose-Morgan, sy'n ymgyrchydd addysg gynhwysol, dystiolaeth ar ran Anabledd Dysgu Cymru a soniodd am geisio cael mynediad at ofal plant i'w mab:

*"On childcare, we eventually moved him to a unit for deaf children, because we found out late that he was deaf, and there was a breakfast club there. He could only go there with support, and the support came from a fund outside of*

[15] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57, Oxfam Cymru

[16] Y Pwyllgor PPIA, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff 296

[17] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector

*education. And at one time, the funding criteria changed, and my husband's wage had gone up a little bit, so it was outside the criteria. So, the headmistress called me in and said, 'Look, you're no longer entitled to this but we will pay it'—out of the parental contributions that they used to collect. I just couldn't do that, so I used to just pay for the breakfast club. I used to give £10. It was one day a week, just so he had that social inclusion. I also refused a taxi. I insisted on taking him, and I was able to do it. He was my youngest, and we were able to have a second car, so it worked. He started and finished at different times. That posed a problem because the private childcare within the school didn't start their session until 10 minutes after he'd finished, and they weren't sure, because he would need one to one, whether it would cost a lot more. I applied for a job and I couldn't pursue that because I couldn't work out the childcare around that."*[18]

Dywedodd rhiant sy'n aelod o Fforwm Rhieni Ofalwyr Abertawe:

> *"My child is now 12. He still needs childcare. At the same age I was able to leave his sister for short periods of time. He cannot access holiday schemes, childminders as he would need 1:1 care and the cost makes this inaccessible and he is too old for private nurseries. Breakfast clubs and after school clubs are not an option because the school cannot afford to cover 1:1 and still run these. I can't work as a result"*[19]

## Effeithiau ar deuluoedd

Fel y gwelwch o'r enghreifftiau uchod, mae rhieni'n gorfod rhoi'r gorau i swyddi/yrfaoedd er mwyn gofalu am blant. Mewn rhai achosion oherwydd y cyfrifoldebau gofalu ar draws y teulu, mae'r ddau riant/ofalwr wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio. Gall straen ymdopi â'r pwysau hyn arwain at chwalu teuluoedd a fydd yn cael effaith ar incwm yr aelwyd.[20] Dywedwyd wrthym fod pedair priodas o bob pump â phlentyn anabl yn methu.[21] Dywedodd Sparkle fod perthnasoedd yn aml yn chwalu oherwydd na all rhieni dreulio amser o ansawdd gyda'i gilydd na rhannu profiadau oherwydd eu bod yn aml yn 'llongau sy'n mynd heibio yn y nos' yn colli ei gilydd oherwydd y bydd un rhiant yn gweithio pan fydd y llall gartref, oherwydd na allant weithio ar yr un pryd oherwydd diffyg gofal plant.[22]

Soniodd un ymatebwr am yr effaith benodol ar ei deulu:

---

[18] Y Pwyllgor PPIA, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 122

[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 55 Fforwm Rhieni Ofalwyr Abertawe

[20] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o Grŵp Ffocws Oak Hill, 15 Medi 2023

[21] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o'r ymweliad ag Ysgol Bryn Derw, 29 Mehefin 2023

[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle

> *"….Because of his needs I was not able to find any childcare for him at all. This meant his father had to give up work to care for him and this eventually helped contribute to the breakdown of our nuclear family as financial pressures were building. The rate of divorce in families with a child with disabilities is far higher than the average population because of the isolation from society and lack of support that other parents can access."*[23]

Yn y gwaith ymchwil y mae wedi'i wneud, mae Sparkle wedi tynnu sylw at y canlynol:

> *"Parents talk of finding jobs that fit around their family commitments, rather than jobs they are qualified for or would enjoy. Many parents work at supermarkets because they can work around school hours or late in the evenings when another parent is home. These are specific employment restrictions and considerations that families with typically developing children may not face."*[24]

Bydd heriau sicrhau cyflogaeth sy'n cyd-fynd â chyfrifoldebau gofalu hefyd yn llawer mwy o broblem yn y tymor hir i'r teuluoedd hyn:

> *"Another parent commented that when someone has a child with a disability their expectations surrounding parenting have to change; most parents expect that when their child is around 12/13 years old, they'll be able to spend an hour home alone after school, meaning the parent can work typical '9-5' hours. However, parents of children with disabilities are not able to do this due to their child's high support needs; they describe their child's lack of cognitive development as essentially meaning they care for a 12/13 year old toddler, and as they have no sense of danger they cannot be left alone for any time. Parents therefore have no choice but to be at home with their child if they cannot source appropriate childcare, limiting their employment options and the number of hours they can work."*[25]

Bydd hyn hefyd yn cael effaith ar allu rhieni/gofalwyr i weithio, ynghyd â'r costau ychwanegol a all ddeillio o addysgu yn y cartref.

### Effaith ar incwm aelwydydd yn y tymor hir

Yn ogystal â lleihau incwm yn y presennol, mae'r materion hyn yn arwain at effaith ar incwm yr aelwyd yn y tymor hir. Yn benodol, mewn perthynas ag incwm yr aelwyd yn gyffredinol, incwm pensiwn neu achosi cyfyngiadau ar allu teulu i brynu neu rentu cartref o'i ddewis mewn ardal o'i ddewis. Dywedodd un rhiant nad oedd wedi gallu gweithio ers 15 mlynedd oherwydd diffyg gofal

[23] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 31, Unigolyn

[24] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle

[25] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle

plant priodol ac, o ganlyniad, nad oes ganddo bensiwn, sy'n arwain at yr angen am fwy o gymorth gan y wladwriaeth. Dywedodd pe bai wedi gallu cael mynediad at ofal plant, y byddai wedi gallu gweithio, gan leihau ei ddibyniaeth ar gymorth y wladwriaeth ac arbed arian i'r wladwriaeth.[26] Dywedwyd wrthym hefyd fod methu gweithio'n cyfyngu ar gyfleoedd yn y dyfodol - fel y dywedodd rhywun, 'mae'n newid eich dyfodol.'[27]

### Costau ychwanegol y mae teuluoedd â phlant anabl yn eu hwynebu

I lawer o deuluoedd, maent yn wynebu costau ychwanegol sy'n lleihau incwm yr aelwyd ymhellach. Mae llawer o'r costau hyn ar gyfer gwasanaethau neu gyfarpar y maent yn teimlo na ddylai'r teulu unigol eu talu.

#### Costau gofal plant

Mae hyn yn dechrau'n gynnar gyda chostau gofal plant. Mewn grŵp ffocws, dywedodd un rhiant wrthym fod yn rhaid iddi dalu am ddarpariaeth gofal plant breifat i'w phlentyn anabl, ac eto roedd darpariaeth wedi'i hariannu i blant nad oeddent yn anabl.[28] A chododd y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth hefyd bryderon am gost darpariaeth breifat arbenigol, gan ddweud y canlynol:

> *"Even where specialist private provision exists, the financial cost can be a significant barrier. Families tell us they feel discriminated against in accessing free childcare because mainstream public-run nurseries often do not cater to their child."*[29]

Dyfynnodd Oxfam Cymru riant a oedd â phlant ag ystod o anghenion gwahanol bod cost gofal plant wedi ei gwneud yn amhosibl iddo ddychwelyd i'r gwaith.[30]

Dyfynnodd Mudiad Meithrin riant nad yw wedi gallu cael mynediad at ofal yn ystod y gwyliau/seibiant, gan ddweud y canlynol:

> *"'Dydyn ni ddim yn gymwys am [respite] chwaith ac yn gorfod talu ffrind i'r teulu i wneud hyn i ni.* Mae'r gwyliau yn hunllef. Mae angen mwy o help a chefnogaeth. Mae e'n costio'n ddrud i ni. Mae ein mab gymaint drutach na phlant eraill felly rhaid i ni barhau i weithio ar ychydig iawn o gwsg ac ychydig iawn o hoe er mwyn ariannu yr anghenion ychwanegol. Mae'n unig ac rydym wedi ymlâdd."[31]

#### Costau cyfarpar/trafnidiaeth

---

[26] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o Grŵp Ffocws Oak Hill, 15 Medi 2023

[27] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o'r ymweliad ag Ysgol Bryn Derw, 29 Mehefin 2023

[28] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023

[29] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 05 Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector

[30] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57, Oxfam Cymru

[31] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 51, Mudiad Meithrin

Soniodd rhieni y gwnaethom siarad â hwy fel rhan o'n gwaith ymgysylltu â dinasyddion am y costau ychwanegol y mae eu teuluoedd yn eu hwynebu:

> "Gallwch chi fod yn sicr bydd unrhyw beth ag "anhenion arbennig" yn y teitl yn costio mwy nag unrhyw beth arall."

A dywedodd rhiant arall y canlynol:

> "*"Pan fyddwch chi'n siarad â rhieni unrhyw un ag anabledd, er mwyn cyflawni'r pethau hoffech chi i'ch plentyn gael, mae'n rhaid mynd ymhellach i ffwrdd fel arfer.* Ac mae'n mynd yn ddrud wedyn."[32]

Rydym wedi clywed enghreifftiau o deuluoedd yn gorfod darparu cyfarpar arbenigol i'w ddefnyddio yn y lleoliadau gofal plant a meithrin.[33] Gall y cyfarpar hwn fod yn ddrud iawn yn aml. Tynnodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol sylw bod cytundebau partneriaeth ar draws iechyd ac addysg mewn rhai ardaloedd sy'n galluogi prynu ac ailgylchu cyfarpar o'r fath, ond nad yw hyn yn gyson ar draws Cymru.[34]

Dywedodd rhiant myfyriwr coleg wrthym ei fod wedi cael dyfynbris tâl wythnosol £178 am dacsi hygyrch i fynd â'i blentyn i'r coleg. Ond, pe bai'n byw mewn awdurdod lleol cyfagos, byddai hyn yn cael ei ariannu'n llawn. Pan gododd yr anghysondeb hwn yn y ddarpariaeth, dywedwyd wrtho na ddylai ei blentyn fod wedi cofrestru yn y coleg pan oedd yn gwybod nad oedd ganddo gludiant. O ganlyniad, mae'r rhiant wedi gorfod newid ei batrwm gwaith i'w alluogi i fynd â'i blentyn i'r coleg, gyda'r tacsi'n casglu ei blentyn. Mae hyn yn dal i gostio £88 yr wythnos. Dywedodd ei blentyn wrthym y gall pobl ifanc nad ydynt yn anabl gael cymorthdaliadau i leihau cost cludiant, ond nad yw hyn ar gael i bobl ifanc anabl.[35]

### Cael mynediad at gymorth preifat

Clywsom enghreifftiau o bobl naill ai'n cael mynediad at gymorth preifat, neu'n dymuno y gallent fforddio cael mynediad at gymorth preifat.

Dywedodd un rhiant, yr amheuir bod awtistiaeth gan ei blentyn, fod ei blentyn wedi bod yn aros am asesiad ers mis Ebrill 2021 (er y dechreuodd y ceisiadau am asesiad yn gynharach fyth.) Ni fydd ei blentyn yn cael asesiad tan fis Ebrill 2024, ac ers i'w blentyn fynd ar y rhestr aros, mae'r rhestr wedi ymestyn, ac oddeutu 3 blynedd yw'r amser aros erbyn hyn.[36] Soniodd teulu arall am aros am 7.5 mlynedd wrth sicrhau diagnosis, ac yn y cyfnod hwnnw mae iechyd meddwl y plentyn wedi dirywio'n

---

[32] Gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor PPIA (nodyn cyhoeddedig i ddilyn)

[33] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023

[34] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 30, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

[35] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023

[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 10, Unigolyn

ofnadwy ac mae wedi ceisio lladd ei hun ddwywaith.[37] Dywedodd Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant fod yr amser aros am asesiad awtistiaeth/ADHD yn amrywio rhwng 47 a 166 o wythnosau ar draws Cymru.[38]

Yn y cyd-destun hwn, nid yw'n syndod felly ein bod wedi clywed am deuluoedd yn cael diagnosis preifat os ydynt mewn sefyllfa i wneud hynny. Yn amlwg, mae'r cyfnod aros hwn yn amser sy'n cael ei golli wrth sicrhau bod plentyn yn cael y cymorth cywir, ac mae'n amser na ellir ei adennill o ran deilliannau addysg na llesiant emosiynol a meddyliol ehangach. Ond gall hyn ddod ar gost ariannol enfawr, ac yn amlwg mae'n cadarnhau anghydraddoldeb ymhellach, gan na fydd pawb yn gallu ariannu cymorth preifat. Soniodd un teulu mai £6,000 yw'r gost bosibl ar gyfer asesiad dau blentyn mewn un teulu yr oedd arnynt angen asesiad.[39] Dywedodd teulu arall wrthym nad oes ganddo'r modd ariannol ar gyfer cymorth cyfreithiol os bydd ei angen, ac nad oes ganddo gartref y gellir ei ailforgeisio i ddarparu cymorth preifat i'w blant.[40]

Gwnaeth y rhiant a soniodd am chwalfa ei berthynas o ganlyniad i'r straen ariannol a roddwyd arno (gweler uchod), hefyd bwysleisio bod yn rhaid iddo gael benthyciadau i gael mynediad at ofal iechyd preifat:

> *"Indirectly, we have been adversely impacted because of the financial strain of losing one income. This was a factor in causing our family to split and father and I are now divorced. The lack of external help caused us to seek out private speech and language appointments as the wait was nearly 2 years to be seen despite not talking. He also had extreme pain every night due to compacted ears and because of his ALN he would need to be put under a general anaesthetic to have this treated. We ended up taking out loans to pay for this privately to ease his pain. Neurotypical children could have been treated with microsuction while awake. He also had bi lateral grommets inserted as he was found to have glue ear (being non verbal he cannot explain the pain he has) and it was not until 3 years after he started screaming in pain every night that he finally saw an ENT on the NHS. I don't know how we would have survived had we not sought private surgery on his 3rd birthday."*[41]

Rydym hefyd wedi clywed am gostau cyfreithiol gorfod mynd drwy dribiwnlysoedd i sicrhau cymorth priodol i'w teuluoedd.

---

[37] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 33, Unigolyn

[38] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 49, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant Cymru

[39] Y Pwyllgor PPIA, Nodyn o Grŵp Ffocws Sparkle, 15 Medi 2023

[40] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 33, Unigolyn

[41] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 31, Unigolyn

## Effaith yr argyfwng costau byw

Rydym hefyd wedi clywed bod yr argyfwng costau byw yn atal teuluoedd rhag cael mynediad at weithgareddau a allai fod o fudd i'w plant. Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol y canlynol wrthym:

> *"Occupational Therapists report that the cost-of-living crisis is affecting opportunities for children and young people to benefit from extra-curricular activities. 56% of Welsh survey respondents said families were cutting back of activities that would support their child's health, development and wellbeing (such as swimming lessons) due to their cost."*[42]

## Taliadau uniongyrchol

Er ei fod y tu allan i gwmpas yr ymchwiliad, rydym hefyd wedi clywed am broblemau sylweddol gyda'r system taliadau uniongyrchol. Yn enwedig y baich gweinyddol a'r heriau o ran sicrhau cynorthwywyr personol.[43] Rydym wedi clywed bod y weinyddiaeth yn llethol. Dywedodd un o'r rhieni y canlynol:

> *"Dw i ddim yn teimlo bod y taliadau uniongyrchol yn rymusol neu'n gwneud beth maen nhw i fod i wneud.* Does dim lle yn eich pen i ddelio â phethau fel maen nhw’n digwydd. Rydych chi'n bwyta'r mêl o'r cwch. Rydych chi'n trio ymdopi â'r heriau dyddiol. Ac mae cymaint ohonyn nhw - mae gen i un plentyn sydd eisiau mynd fel mellten i bren, yn cael ei lethu os yw'n llwglyd neu'n oer neu'n boeth, mae’n methu aros, does dim amynedd ’da fe o gwbl ac mae gen i blentyn arall sy’n gaeth i gadair olwyn gan mwyaf, sy’n methu gwneud popeth yn gyflym, ac mae'n rhaid bod yn amyneddgar."[44]

Rydym yn cydnabod bod hwn yn fater sydd heb ei ddatganoli, ond roeddem am dynnu sylw ato gan y dylai fod yn arf sy'n helpu teuluoedd i gael mynediad at gymorth, ond nid yw'n gweithio fel y dylai wneud.

Rhannodd yr elusen Sparkle waith ymchwil y mae wedi'i wneud, a chodwyd y mater taliadau uniongyrchol gyda hi:

> *"The offer of direct payments to cover the cost of childcare or respite is welcomed, however families are still required to source appropriate workers, a task which families find stressful. Further stress is caused once a suitable person is found as the family have to become an 'employer', calculating wages and tax. Families with*

[42] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 30, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol

[43] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 19, Unigolyn

[44] Gwaith Ymgysylltu â Dinasyddion y Pwyllgor PPIA (nodyn cyhoeddedig i ddilyn)

> *children with additional needs rarely have the time to learn about the business side and therefore these arrangements often fail."*[45]

## Cadarnhau anfantais

Rydym yn ymwybodol bod teuluoedd â phlant anabl yn fwy tebygol o fod yn byw islaw'r ffin dlodi, ac y gall hyn wedyn greu rhwystrau ychwanegol iddynt gael mynediad at wasanaethau a chymorth cynhwysol sy'n diwallu anghenion y plentyn a'r teulu ehangach, gan gadarnhau anfantais ymhellach yn y tymor hwy.

Cododd sefydliadau fel Anabledd Cymru bryderon am yr effaith y mae plant anabl yn ei hwynebu sy'n gorfod byw gydag effaith eu hanabledd a'u tlodi, a'r hyn y gall hyn ei olygu ar gyfer deilliannau addysgol plant. Nodwyd gwahaniaethau rhwng nifer y bobl anabl sy'n gadael addysg heb gymwysterau a'r rhai nad ydynt yn anabl.[46]

> *"It is well established that educational outcomes for disabled people differs to non-disabled people. In Wales, from June 2020-2021, 37.9% of non-disabled people's highest qualification was a degree or equivalent, compared to 21.5% of disabled people. In the most even statistics, 21.6% of non-disabled people's highest qualification was a A-level or equivalent, compared to 20.7% of disabled people. 18.8% of non-disabled people's highest qualification was GCSE grade C or above or equivalent, compared to 24% of disabled people. 9.4% of non-disabled people's highest qualification was another form of higher education, compared to 7.3% of disabled people. 5.9% of non-disabled people had no qualifications, compared to the significantly higher 16.4% of disabled people."*[47]

Yn amlwg, gall deilliannau addysgol gael effaith gydol oes ar gyfleoedd unigolyn i ennill arian, fel bod hyn yn ongl arall y mae angen ei hystyried yn y Strategaeth Tlodi Plant. Mae angen meddwl yn ofalus hefyd am groestoriadedd y materion hyn a dylid mynd i'r afael â hwy mewn unrhyw strategaeth wrth geisio lleihau tlodi plant.

Mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer gofal plant, galwodd Oxfam Cymru am hyn, yn enwedig ar gyfer darparu gofal plant a mynediad at addysg gynnar i blant o gefndiroedd ethnig gwahanol a phlant anabl. Dywedodd mai dim ond drwy gydnabod anghenion a heriau unigryw y plant hyn a mynd i'r afael â hwy y gellir sicrhau bod gofal plant ac addysg gynnar yn wirioneddol gynhwysol a theg.[48]

---

[45] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 36, Cadeirydd, Sparkle

[46] Y Pwyllgor PPIA, 7 Mehefin 2023, Cofnod y Trafodion, paragraffau 64-65

[47] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 09, Anabledd Cymru

[48] Tystiolaeth ysgrifenedig, AEC 57, Oxfam Cymru

Rydym yn pryderu y bydd llawer o'r teuluoedd rydym wedi siarad â hwy yn wynebu cyfuniad o'r holl faterion hyn. Rydym hefyd yn hynod ymwybodol bod ein gwaith casglu tystiolaeth wedi ein galluogi i gymryd “cipolwg” yn unig o dystiolaeth, ac y bydd teuluoedd sy’n cael profiad o faterion eraill nad ydym yn ymwybodol ohonynt.

Byddwn yn parhau i fynd ar drywydd y materion hyn drwy ein hymchwiliad presennol, ond roeddem am sicrhau bod hyn yn cael ei ddwyn i'ch sylw ac y gallai helpu i lywio eich gwaith presennol. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw wybodaeth neu ddatblygiadau perthnasol yn y maes gwaith hwn.

Rwy'n gobeithio y bydd y dystiolaeth hon o fudd i'ch Pwyllgor.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# CYFLWYNIAD I'R YMHOLIAD AR GYFIAWNDER DATA A'R DEFNYDD O DDATA PERSONOL



# FFORMATAU HYGYRCH

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni ar ymholidadu@llaiscymru.org.

Gallwch ei lawrlwytho o'n gwefan neu ofyn am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa.

# Cynnwys

**Ynglŷn â Llais .......... 4**

**Defnyddio data personol i ddarparu fy ngofal a thriniaeth .......... 5**

Gwybod pa ddata a gedwir amdanaf a pham .......... 5

Bod yn hyderus yng nghywirdeb, cyflawnrwydd, a defnydd fy nata i ddiwallu fy anghenion .......... 7

**Defnyddio data er budd eraill trwy hysbysu a dylanwadu ar ddatblygiadau gofal iechyd .......... 9**

**Defnyddio cyfleoedd i feithrin gwell dealltwriaeth o gasglu, rhannu a defnyddio data .......... 11**

## Ynglŷn â Llais

Mae’n bleser gennym gyflwyno’r cyflwyniad hwn i Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd ar gyfer yr ymchwiliad i gyfiawnder data a’r defnydd o ddata personol o fewn GIG Cymru.

Llais yw’r corff annibynnol sy’n adlewyrchu barn ac yn cynrychioli buddiannau pobl sy’n byw yng Nghymru yn eu Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Rydym yn annog ac yn cefnogi pobl i gael llais wrth ddylunio, cynllunio a darparu gwasanaethau’r GIG a gofal cymdeithasol.

Rydym yn gweithredu’n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rydym yn gweithio gyda phobl a chymunedau ym mhob rhan o Gymru fel bod llais. awb yn cael ei glywed, a’i ddefnyddio, i lywio’r gwaith o ddylunio, datblygu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i bawb. Rydym yn:

- Estyn allan i glywed gan bobl yn ein cymunedau lleol trwy raglen barhaus o weithgareddau ymgysylltu. Rydym yn gwneud hyn fel bod pobl yn gwybod ac yn deall yr hyn a wnawn, ac i gasglu eu barn a’u profiadau o’r GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Rydym yn gwneud hyn mewn llawer o ffyrdd, wyneb yn wyneb ac yn ddigidol, gan gynnwys ymweld â mannau lle mae pobl yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Rydym yn defnyddio’r hyn a glywn i helpu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddeall yn well sut y mae’r rhai ohonom a allai fod angen, ac sy’n defnyddio gwasanaethau, yn meddwl bod gwasanaethau’n diwallu eu hanghenion, yn y ffordd sydd bwysicaf iddynt hwy. Rydym yn helpu i sicrhau bod y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn cymryd camau i wella pethau lle bo angen. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda rheolwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol pan fyddant yn meddwl am wneud newidiadau i’r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, fel bod pobl a chymunedau’n cael dweud eu dweud o’r dechrau.
- Darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion sy’n rhad ac am ddim, yn annibynnol ac yn gyfrinachol i helpu pobl i fynegi eu pryderon am y GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Rydym wedi gweithredu yng Nghymru ers 1 Ebrill 2023. Mae ein cyflwyniad yn tynnu ar yr hyn yr ydym ni, a'r cyn Gynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru wedi'i glywed am yr hyn sy'n bwysig i bobl sy'n byw yng Nghymru ynglŷn â defnyddio data personol o fewn GIG Cymru.

## Defnyddio data personol i ddarparu fy ngofal a thriniaeth

Ers dechrau'r pandemig Covid-19, gwelodd pobl sy'n byw yng Nghymru ddatblygiad cyflym, cyflwyniad a defnydd o wasanaethau gofal iechyd digidol. Roedd hyn yn helpu llawer o bobl i deimlo'n fwy diogel pan oedd angen gofal a thriniaeth arnynt. Mae hyn oherwydd ei fod yn golygu osgoi'r angen i deithio i leoliadau gofal iechyd traddodiadol, gan helpu pobl i gadw mewn cysylltiad trwy gael mynediad at eu timau gofal iechyd mewn ffordd anghysbell.

Roedd hyn hefyd yn golygu bod gwybodaeth bersonol a sensitif pobl yn cael ei chasglu a'i thrin yn electronig gan ddarparwyr gofal iechyd yn fwy nag erioed o'r blaen.

### Gwybod pa ddata a gedwir amdanaf a pham

Roedd y cynnydd cyflym mewn gwasanaethau gofal iechyd digidol yn golygu bod llawer o bobl wedi dod yn fwy cyfarwydd â rhannu eu data personol â gwasanaethau'r GIG ar-lein. Gwnaethant hyn ar lafar trwy ymgynghoriadau ffôn a fideo, ac yn ysgrifenedig, trwy wasanaethau trefnu apwyntiad a chyngor ar-lein, fel AskMyGP ac E-connect.

Yn ystod y cyfnod hwn, gwelodd llawer o bobl symudiad mawr oddi wrth y gwaith casglu data papur a chadw cofnodion mwy traddodiadol yr oeddent yn gyfarwydd ag ef yn y GIG. I lawer o bobl, roedd hwn yn ddatblygiad i'w groesawu, gan ddod yn debycach i wasanaethau dydd i ddydd eraill yr oeddent wedi arfer â mynd ar-lein.

Ond roedd hefyd yn golygu, er yn y tymor hwy, bod y cyfleoedd ar gyfer darparu gofal iechyd mewn ffordd fwy hygyrch, hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn uchel, roedd cyflymder a ffocws ei gyflwyniad – i alluogi gwasanaethau hanfodol i barhau – yn golygu nad oedd y cyfle yno i ddylunio a datblygu'r ffyrdd newydd hyn o weithio gyda phobl, wedi'u llywio gan yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Roedd hyn hefyd yn golygu nad oedd cyfle ystyrlon i siarad am a meithrin dealltwriaeth gref ymhlith pobl am:

- sut roedd eu data personol yn cael ei gasglu'n electronig
- sut yr oedd yn cael ei storio
- pwy fyddai'n gallu ei weld
- sut y byddai'n cael ei ddefnyddio
- sut y gallent fod yn dawel eu meddwl y byddai'n cael ei ddiogelu'n briodol, a
- beth yw eu hawliau ynghylch eu data.

Nid yw hyn yn golygu nad oedd gwybodaeth ar gael i bobl am ddefnyddio a storio'r data a ddarparwyd ganddynt yn electronig. Mae pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ar-lein wedi arfer gweld llawer o wybodaeth hir, fanwl am eu hawliau a sut bydd eu data'n cael ei storio a'i ddefnyddio trwy bethau fel hysbysiadau preifatrwydd.

Ond mae'r cynefindra hwn yn golygu nad yw pobl bob amser yn darllen y manylion – ac nid yw darparu'r manylion yn anochel yn golygu bod pobl yn deall yr hyn y mae'n ei olygu iddynt yn ymarferol - oni bai eu bod yn gallu ei weld a'i deimlo drostynt eu hunain.

Felly, er enghraifft, mae teimlo'n hyderus i rannu gwybodaeth bersonol a sensitif yn ddiogel wrth weld gweithwyr gofal iechyd proffesiynol trwy drefniant fideo-gynadledda angen rhywfaint o sicrwydd gweithredol gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol bod yr amgylchedd yn un cyfrinachol.

Nid yw hyn yn rhywbeth sy'n berthnasol i gasglu data electronig yn unig. Gwyddom, er enghraifft, pa mor bwysig yw hi fod pobl yn deall pam y gofynnir am eu data personol, pwy fydd yn ei ddefnyddio, ac ar gyfer beth

– mae'n elfen hanfodol o'r ymddiriedaeth sydd ei hangen rhwng pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'r rhai sy'n eu darparu.

Dangoswyd hyn yn glir pan oedd newidiadau i'r ffordd y defnyddiwyd data personol o fewn practisau meddygon teulu yn ystod y pandemig.  Er mwyn i staff derbynfeydd allu helpu i atgyfeirio pobl at y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cywir, newidiodd llawer o bractisau meddygon teulu'r ffordd yr oeddent yn ymdrin â cheisiadau am apwyntiad.

Roedd hyn yn golygu bod staff derbynfa yn aml yn gofyn am wybodaeth bersonol a sensitif gan bobl am eu symptomau pan nad oeddent efallai wedi gwneud hynny o'r blaen.  Lle nad oedd pobl yn deall y rhesymau am hyn - oherwydd nad oedd wedi'i esbonio'n glir iddynt - roedd hyn yn aml yn arwain at amharodrwydd ymhlith pobl i rannu gwybodaeth bersonol o'r fath ymlaen llaw.

## Bod yn hyderus yng nghywirdeb, cyflawnrwydd, a defnydd fy nata i ddiwallu fy anghenion

Gwyddom fod ymddiriedaeth a hyder pobl yn eu gwasanaethau gofal iechyd, a'r bobl sy'n eu darparu, yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan ba mor dda y mae systemau gofal iechyd a staff gofal iechyd yn gweithio o ran deall ac ymateb i anghenion ac amgylchiadau unigol pobl.

Gall pethau syml ond pwysig, fel gwybod a defnyddio'r teitl neu'r enw sydd orau gan berson wneud gwahaniaeth mawr yn y ffordd y mae'n teimlo am eu profiad gofal a thriniaeth.

Mae pethau eraill, fel gwybod a defnyddio'r ffyrdd gorau o gyfathrebu â rhywun am eu gofal iechyd nid yn unig yn gwneud gwahaniaeth yn y ffordd y mae pobl yn cael profiad o ofal, ond hefyd pa mor hyderus ydynt am ansawdd a diogelwch y gofal hwnnw - a faint o reolaeth a chyfranogiad y maent yn ei deimlo sydd ganddynt yn eu gofal iechyd eu hunain.

Yn gyffredinol, mae pobl yn disgwyl i'w GIG gadw, defnyddio a rhannu eu data personol yn ddiogel rhwng pawb sy'n gyfrifol am eu gofal iechyd a'u triniaeth – gan gynnwys nhw eu hunain. Felly, pan na fydd hyn yn digwydd, nid yn unig yw hi'n rhwystredig iawn, gall arwain at golli hyder llawer mwy sylfaenol yn effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a'u rhan yn y gwasanaeth hwnnw.

Er enghraifft, rydym yn clywed am bryderon pobl:

- oherwydd nad yw systemau data yn gydgysylltiedig, mae'n rhaid iddynt ailadrodd yr un pethau dro ar ôl tro i wahanol staff gofal iechyd oherwydd nad yw'r wybodaeth amdanynt ar gael i'r person sy'n darparu eu gofal.

  Pan fydd hyn yn digwydd, er enghraifft mewn argyfwng, e.e., pan ofynnir i deuluoedd mewn trallod rannu gwybodaeth am feddyginiaeth eu hanwyliaid, mae'r straen a'r pryder ynghylch gwneud pethau'n anghywir neu golli rhywbeth yn gwneud sefyllfa anodd gymaint yn waeth.

  Clywn y rhwystredigaeth gan bobl ynghylch gwasanaethau nad oes ganddynt eu data personol pan fo'i angen yn y ffordd y mae ei angen ar draws pob rhan o'r system gofal iechyd, e.e., rhwng meddygon teulu, fferyllfeydd, ac ysbytai, rhwng wardiau yn yr un ysbyty, yng Nghymru a rhwng Cymru a Lloegr lle mae pobl yn cyrchu gwasanaethau dros y ffin

- oherwydd nad yw eu data bob amser wedi cael ei rannu'n ystyrlon rhwng gwahanol staff gofal iechyd, nid yw'r ffordd y darperir gofal a thriniaeth bob amser yn adlewyrchu'r hyn sydd ei angen a'r hyn sydd bwysicaf i bobl, e.e. ymgysylltu â phobl yn eu dewis iaith, cydnabod rôl a chyfranogiad gofalwyr, deall sut y gall profiadau bywyd pobl ysgogi rhai ymddygiadau ac adweithiau, ac ati.

- oherwydd bod eu data personol yn cael ei gadw, ei ddefnyddio a'i reoli gan y GIG a'r rhai sy'n gweithio ynddo, mae weithiau'n anoddach nag y dylai fod i gael gwybod am, a derbyn eu cofnodion gofal iechyd eu hunain.

  Yn aml pan fyddant yn ei dderbyn, ni allant ddeall llawer ohono oherwydd nid yw wedi'i ysgrifennu na'i gadw mewn ffordd sy'n helpu pobl i ddeall beth mae'n ei olygu iddynt hwy - gan ei gwneud yn anoddach i bobl gael mwy o reolaeth a chyfrifoldeb dros reoli eu gofal.

- oherwydd nad oes ganddynt ddarlun clir o'r data gofal iechyd sydd gan y GIG amdanynt, ac nid oes ganddynt fynediad hawdd ato mewn un lle, mae gan rai pobl bryderon efallai nad yw'r wybodaeth a gedwir amdanynt yn gywir ac yn gyflawn, ac nid oes ganddynt ffordd hawdd o'i wirio.

Rydym hefyd yn clywed rhai pryderon ac ofnau gan bobl y gallai data sensitif, personol sy'n ymwneud â'u cysylltiad â gwasanaethau gofal iechyd gael ei rannu neu ei ddefnyddio'n negyddol. Er enghraifft:

| | | |
|---|---|---|
| Mae pobl yn aml yn poeni, os ydyn nhw'n gwneud cwyn neu'n mynegi pryder am eu gwasanaeth, y bydd yn cael ei gadw ar eu cofnod ac yn effeithio ar sut maen nhw'n parhau i dderbyn gofal a thriniaeth | Mae pobl weithiau'n pryderu y gallai eu data personol gael ei rannu a'i gamddefnyddio y tu allan i'r GIG, e.e., rhwng gwasanaethau gofal iechyd ac eraill, heb yn wybod iddynt a heb ganiatâd, a heb reswm da | Mae pobl weithiau'n poeni y gallai eu data personol sensitif am eu cyflyrau neu eu nodweddion gael eu camddefnyddio i wneud dyfarniadau ehangach amdanynt eu hunain a'u gofal. |

## Defnyddio data er budd eraill trwy hysbysu a dylanwadu ar ddatblygiadau a darparu gofal iechyd

Yn gyffredinol, mae pobl yn disgwyl ac yn deall bod angen eu data personol ac y dylai'r GIG ei ddefnyddio i ddarparu eu gofal iechyd – fel eu bod yn cael y cyngor, cymorth, gofal a thriniaeth gorau posibl i'w helpu i aros yn iach, rheoli cyflwr iechyd tymor hir, gwella o salwch, neu eu cefnogi pan fyddant yn cyrraedd diwedd eu hoes.

Cyn y pandemig, codwyd llawer o'n hymwybyddiaeth gyhoeddus am gasglu, defnyddio a rhannu data gofal iechyd drwy bryder pan aeth pethau o chwith, er enghraifft mewn ymateb i straeon am broblemau neu doriadau o ran cadw data'n ddiogel.

Gwelodd pobl hefyd trwy bandemig Covid-19 sut y gallai dwyn ynghyd a rhannu data yn ehangach, ac ar raddfa lawer mwy, helpu ein dealltwriaeth o effaith y firws ar ein gwahanol bobl, cymunedau, a grwpiau, pa gamau oedd eu hangen mewn ymateb a pha wahaniaeth roedd y camau hyn yn ei wneud.

Dangosodd hefyd i bobl fod bylchau a gwahaniaethau mawr yn y ffordd yr oedd systemau gofal iechyd yn casglu, yn defnyddio ac yn adrodd ar eu data.

Felly er bod ymwybyddiaeth gyffredinol llawer gwell nawr, mae llawer mwy i'w wneud.  Mae'n bwysig bod pobl yn cael cymorth a chefnogaeth i ddeall y cysylltiad rhwng y data personol sy'n cael ei gasglu, ei atodi i'w cofnodion gofal iechyd personol, ei rannu, a'i ddefnyddio i ddarparu eu gofal iechyd unigol, a'r data (adnabyddadwy neu fel arall) sy'n cael ei rannu a'i ddefnyddio i lywio a dylanwadu ar gynlluniau a datblygiadau gofal iechyd yn ehangach.

Gwyddom fod parodrwydd pobl i rannu eu data a'u profiadau gofal iechyd eu hunain i lywio a dylanwadu ar ofal iechyd yn ehangach yn dibynnu'n helaeth ar a ydynt yn teimlo y bydd gwneud hynny'n gwneud gwahaniaeth i eraill.

Rydym yn clywed hyn amlaf pan fydd pobl yn rhannu eu pryderon â ni am eu gofal a'u triniaeth drwy ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion.

Rydym hefyd yn clywed am hyn pan fydd pobl yn cael gofal a thriniaeth ar gyfer cyflwr gofal iechyd penodol ac yn cytuno i rannu eu data i gefnogi mwy o ymchwil a datblygiad i'r cyflwr a'i driniaeth.



# Defnyddio cyfleoedd i feithrin gwell dealltwriaeth o gasglu, rhannu a defnyddio data

Mae datblygu ap newydd y GIG yng Nghymru yn rhoi potensial gwirioneddol i bobl sy'n gallu ac yn dymuno defnyddio gwasanaethau digidol i gael mynediad haws at eu data iechyd personol a gedwir gan y GIG yng Nghymru.

Un o'r elfennau allweddol a ddisgrifir ar gyfer yr ap yw ei fod yn rhoi'r gallu i bobl "gymryd rheolaeth dros eu data a gweld a phenderfynu ble mae'n mynd.  Er enghraifft, bydd yr ap yn caniatáu i bobl sefydlu dewisiadau personol ar gyfer sut mae eu data yn cael ei ddefnyddio…. .[1]"

Bydd yn bwysig bod pob datblygiad fel y rhain yn rhoi cyfle gwirioneddol i bawb sy'n ymwneud â gofal y GIG weithio'n agos gyda phobl a chymunedau i helpu i ddatblygu fframwaith cliriach yng Nghymru i nodi, casglu, rheoli, defnyddio a rhannu data.

Dylai gwneud hyn helpu pawb dan sylw i ddylunio, datblygu a darparu gwasanaethau gofal iechyd mewn ffordd sy'n adnabob ac yn ymateb i'r pethau sydd bwysicaf i'n pobl a'n cymunedau. Nid oes fawr o ddiben casglu data os na chaiff ei ddefnyddio i feithrin dealltwriaeth gref o'n gwahanol anghenion fel bod ein gwasanaethau gofal iechyd yn ymateb ac yn bodloni'r anghenion hynny'n deg.

Felly, ni ddylai'r mathau hyn o ddatblygiadau ymwneud yn unig â darparu ffyrdd digidol o roi mynediad i'r data a gedwir ar hyn o bryd.

Dylai barhau i ofyn i bobl beth sy'n bwysig iddyn nhw, beth mae'n nhw'n ei eisiau a sut maen nhw ei eisiau fel y gall ddiwallu anghenion pobl - yn seiliedig ar eu profiad o gael a defnyddio eu data, a sut maen nhw am weld a defnyddio eu data yn y tymor hwy.

---

[1] Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd (DSPP) - Iechyd a Gofal Digidol Cymru (gig.cymru)

Gwyddom y gall llawer o wahanol bethau effeithio ar sut mae pobl yn teimlo am gasglu a rhannu data iechyd personol.  Mae sicrhau cydbwysedd rhwng manteision rhannu data ar gyfer gofal iechyd ac ymchwil a phryderon naturiol pobl ynghylch preifatrwydd yn her sy'n gofyn am ddulliau meddylgar, mesurau diogelu clir, a thrafodaeth barhaus gyda chleifion a'r cyhoedd.

Dyma rai o’r pethau y mae angen i’r GIG yng Nghymru feddwl amdanynt wrth ddatblygu a defnyddio data:

Bod yn onest am fanteision a risgiau casglu a rhannu data gyda chleifion, teuluoedd, a’r cyhoedd ehangach.  Dweud pam fod angen casglu a defnyddio data, pam ei fod yn bwysig os nad yw’r data hwnnw ar gael neu’n cael ei rannu, a gyda phwy

Cynnwys pobl yn y gwaith o ddylunio a datblygu systemau a threfniadau casglu data – mewn ffyrdd sy’n meithrin ymddiriedaeth, dealltwriaeth a pherchnogaeth, yn enwedig ymhlith y rheini na chlywir eu lleisiau’n aml

Bod yn glir ynghylch yr hyn y gall pobl ei reoli a’r hyn na allant ei reoli mewn penderfyniadau am eu cipio, eu defnyddio a’u rhannu. Byddwch yn glir ynghylch pam, a sut y caiff eu hawliau a'u data eu diogelu

Peidio â gadael neb ar ôl.  Nid yw pawb yn gallu neu’n dymuno cael gwasanaethau neu ddata’r GIG yn ddigidol, ac nid yw holl wasanaethau neu ddata’r GIG yn cael eu cadw na’u darparu’n ddigidol

Cofio, er mwyn i ddata fod yn ddefnyddiol, mae angen iddo fod yn fwy na dim ond ar gael yn hawdd. Mae angen iddo fod yn gywir, mae angen iddo wneud synnwyr, mae angen iddo gwmpasu'r pethau sy'n bwysig iddynt ac mae angen iddo wneud gwahaniaeth.

